

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Tachwedd 2012

Rhif 427

50c

Y Byd yn Un!



DIAU mai dau o brif ddigwyddiadau'r flwyddyn i nifer o'n pobl ifanc oedd y Gemau Olympaidd, ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Ar ddechrau gwyliau'r Haf cafodd disgyblion o Ysgol Dyffryn Ogwen eu dewis i fynychu seremoni agoriadol y Gemau yn Llundain fel gwesteion Indonesia (gweler yr adroddiad ar dudalen 17).

Mae'n rhaid bod hyn wedi plannu hedyn ymysg y staff a'r disgyblion, oherwydd wrth ddysgu "Y Byd yn Un" ar gyfer cystadleuaeth y côr uwchradd yn Eisteddfod yr Urdd, gwelwyd cyfle i fynd â'r gân dros y lli, yn llythrennol. A'r newyddion da yw fod y côr wedi cael ei ddewis i berfformio yng Ngŵyl Gymreig Disneyland Paris fis Mawrth nesaf! Meddai Pennaeth Adran Gerdd yr ysgol, Mr. Hefin Evans,

" Mae hyn yn ffordd hyfryd o wobrwyo'r plant am eu holl waith caled gydol y flwyddyn, ac edrychwn ymlaen at gynyddu ein repertoire a'i gyflwyno i gynulleidfa newydd, ryngwladol."

Ond cyn hynny, bydd y côr yn cystadlu yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen yn Neuadd Ogwen Nos Wener, Tachwedd 16eg, felly dewch draw i'w clywed cyn eu taith fawr!

Cofiwch Brynu

Calendr Llais Ogwan



Yr arheg Nadolig
ddelfrydol

£4.00 yn y siopau lleol
neu ffoniwch
Dafydd Fôn Williams
01248 601583

Cynhelir

**GWASANAETH
NADOLIG
CYMUNEDOL**

YNG NGHAPEL
JERUSALEM, BETHESDA

**NOS SUL, 23 RHAGFYR,
2012**
am 7 o'r gloch

Côr y Dyffryn – Dalier sylw:
Cynhelir ymarfer y carolau
cynulleidfaol
yn festri'r Capel
Nos Sul, Rhagfyr 16
am 6.15 o'r gloch

EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN

6.30 pm Nos Wener 16 Tachwedd
yn Neuadd Ogwen
Cystadlaethau agored, Unawdwyr,
Offerynwyr, Llefarywyr, Corau a Chadeirio

01248
600490

10.00 am Dydd Sadwrn, 17 Tachwedd
yn Ysgol Dyffryn Ogwen
Cystadlaethau o bob math
i blant ysgolion cynradd.

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts hylaw@btinternet.com	☎ 600965
Ieuan Wyn cylch@tiscali.co.uk	☎ 600297
Lowri Roberts l.roberts11@btinternet.com	☎ 600490
Dewi Llewelyn Siôn dewision@btinternet.com	☎ 600274
Fiona Cadwaladr Owen Fiona@fowen.wanadoo.co.uk	☎ 601592
Siân Esmor Rees sian_esmor@btinternet.com	☎ 600427
Neville Hughes nev_hughes@btinternet.com	☎ 600853
Dewi A Morgan dewimorgan@fsmail.net	☎ 602440
Walter W Williams waltermenai@yahoo.co.uk	☎ 601167

SWYDDOGION

Cadeirydd:

André Lomozik, Zakopane,
7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Bangor,
Gwynedd LL57 3NW ☎ 602117

Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.com

Y Llais Drwy'r Post:

Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygydd y rhifyn hwn gan Lowri Roberts a Walter Williams.

Golygyddion mis Rhagfyr fydd Lowri Roberts, 8 Pen-y-ffriddoedd, Tregarth LL57 4NY (01248 601167)

l.roberts11@btinternet.com

a Walter W. Williams, 14 Erw Las, Bethesda LL57 3NN (01248 601167)

waltermenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 28 Tachwedd, os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 13 Rhagfyr yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Tachwedd

- Bingo. Canolfan Glasinfryn am 7.30. Elw at gronfa merch fach y postmon lleol sydd yn ysbyty Alderhey.
- Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen am 6.30.
- Eisteddfod Dyffryn Ogwen (Y Plant). Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen am 10yb.
- Bore Coffi NSPCC. Neuadd Ogwen. 10 – 12.
- Cyfarfod Blynyddol Llais Ogwan. Cefnfaes am 7.30.
- Bore Coffi Llais Ogwan. Neuadd Ogwen. 10 – 12.
- Ffair Nadolig Cylch Meithrin Gerlan yn y Caban. 11 – 1.
- Te Nadolig. Elw at Eglwys y Gelli. Canolfan Tregarth. 2 – 4yp.
- Plaid Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.
- Ffair Nadolig Capel Bethlehem Talybont. Y Ffestri am 7.
- Plaid Lafur, Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
- Merched y Wawr Bethesda. "Taith i Malawi"- Dr. Dafydd Roberts ac Enid. Cefnfaes am 7.

Mis Rhagfyr

- Ffair Nadolig y Blaid Lafur. Neuadd Ogwen. 10 – 12.
- Hwyl yr Wyl – Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Plas Ffrancon. 2 – 5.
- Cymdeithas Lenyddol Gofalaeth Bro Dyffryn Ogwen. Carmel Llanllechid am 7.
- Bore Coffi Ysgol Feithrin. Neuadd Ogwen. 10 -12.
- Marchnad Cynnyrch Lleol. Ystafell Fawr Capel Jerusalem Bethesda. 10 – 2.
- Taith Gerdded Noddedig at Apel Eleanor Jones (Offer i Ward Alaw)
- Cymdeithas Hanes D. Ogwen. Maldwyn Thomas. Ffestri Jerusalem am 7.
- Bingo at Apel Elinor Jones. Clwb Criced a Bowlio Bethesda am 7.
- Bore Coffi Eglwys Sant Tegai. Neuadd Ogwen. 10 -12.
- Bore Coffi Cymdeithas Cŵn Tywys i'r Deillion. Neuadd Ogwen. 10 – 12.
- Gwasanaeth Nadolig Cymunedol. Capel Jerusalem am 7.00.

Tybed a fyddai gennych ddiddordeb mewn teipio ar gyfer y Llais?

Angen sglilau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a rhyngwyd.

Telerau rhesymol.
(07902 362213) post@tasg.co.uk

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Rhoddion i'r Llais

- £10.00** Teulu'r ddiweddar Rhiannon Evans, (gynt o Gwenallt, 31 Bro Rhiwen, Rhiwlas).
- £10.00** Er cof am Gwilym Ll. Williams, Maes Caradog, Nant Ffrancon.
- £5.00** Llewela O'Brien, er cof annwyl am ei thad, Richard Cyril Thomas, 22 Maes Ogwen, Tregarth, a fu farw 13 Rhagfyr, ac i gofio am ddiwrnod ei benblwydd, 17 Tach.
- £100.00** Cyngor Cymuned Llanddeiniolen.
- £200.00** Cyngor Cymuned, Llandegai.
- £50.00** Teulu Branas – er cof am Mr. C.V. Morgan.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mis Tachwedd

- £30 (17)** O.G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda
- £20 (90)** Carys Williams, 12 Talycae, Tregarth.
- £10 (73)** Tom Gwyn Jones, Creigle, Rhiwlas.
- £5 (46)** Rhiannon Efans, 1 Ffordd Pant, Bethesda.

Diolch yn Fawr

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain
£27 Ewrop
£36 Gweddill y Byd



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com

☎ 01248 600184

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
Gorffwysfa, Sling, Tregarth
LL57 4RJ ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Llythyrau

**7, Winkfield Road,
Windsor,
Berks.
SL4 4BA**

Annwyl Olygydd,
Diddorol oedd darllen yn y Llais am y carcharor o'r Almaen a ddaeth yn ffrindiau mawr efo rhieni Wyn Thomas o'r Gerlan gynt.

Cofiaf fy nhad, Emllyn Davies (Em Bach) o Faes Coetmor, yn sôn amdano yn aml, gan ei fod yn gydwethiwr gyda Ben Thomas i Gyngor Sir Caernarfon am y rhan fwyaf o'i fywyd. Fy nhad yw'r cyntaf o'r chwith (nesaf at Ben) yn y llun a dynnwyd ym mhen Llyn Ogwen.

Cof arall sydd gennyf yw gweld carcharwyr o'r Almaen yn gweithio ar fferm Tyddyn Isaf, ond 'rwy'n meddwl mai defnydd lliw siâp crwn oedd ar eu cefnau, ac nid y triogl y mae Wyn yn ei gofio.

Tra'n ysgrifennu, gobeithio y caniatewch i mi newid y pwnc, a sôn am y newyddion trist am Glwb Peldroed Bethesda. Bu fy nhad yn rhedeg ar y lein i'r tîm am amser maith, a gwnaeth lawer wedyn, gyda chymaint o rai eraill, i gadw'r tîm ar ei draed, yn enwedig yn ystod y chwedegau a'r saithdegau, pan ddaeth llawer o lwyddiant i'w rhan. Credaf y byddai fy nhad yn troi yn ei fedd pe bai'n gwybod am yr hyn sydd wedi digwydd. Gobeithio'n wir y bydd y llythyr gan y person 'dienw' a ymddangosodd yn y Llais fis diwethaf yn ennyn ateb yn fuan.

**Yn gywir,
John Ffrancon Davies**

Annwyl Olygydd,
Ysgrifennaf mewn ymateb i'r llythyr dienw, parthed Clwb Peldroed Bethesda, a ymddangosodd yn Llais Ogwan fis diwethaf.

Er gwybodaeth, mae'n fater o siom i'r Clwb Peldroed hefyd nad oes tîm peldroed eleni, ond i egluro'r sefyllfa, nodaf y pwyntiau canlynol:

- Yr oedd y Clwb wedi ymaelodi i chwarae yng nghyngair Lock Stock Welsh Alliance, ac mae angen carfan safonol o chwaraewyr ar gyfer hynny. Yn anffodus, er gwaethaf ein hymdrechion dros yr haf, nid oedd y garfan eleni yn ddigon cryf i'n galluogi i fod yn rhan o'r gynghrair honno.

- Nid ar chwarae bach y mae cyllido tîm yn wythnosol mewn cynghrair fel hon, a hoffwn nodi bod y Clwb yn hunan-gynhaliol.

- Er mwyn manteisio ar y toriad hwn, bwriedir cynnal gwaith pellach i ddatrys problem llifogydd a gwlybanaeth difrifol ar un chwarter o'r cae.

- Yn olaf, hoffwn nodi ei bod, wrth gwrs, yn fwrriad gennym gael tîm ar gyfer tymor Medi 2013, ac efallai y byddai awdur y llythyr blaenorol, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb, yn fodlon rhoi eu henwau ymlaen fel gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda rhedeg Bethesda AFC, gan ein bod wedi colli amryw o ffyddloniaid cydwytodol iawn yn ddiweddar.

Yn gywir,

**Gareth Jones (Ysgrifennydd)
Ysgrifennydd
600455 neu
bethesdaafc@tiscali.co.uk**

Mae Canolfan Rachub yn chwilio am
OERGELL FECHAN.
(i'w gosod o dan gownter)

Os oes gennych chi un ac eisiau cael gwared ohoni, cysylltwch a

**MICHAEL WILLIAMS,
15 Lon Groes, Rachub.
01248 602874 neu 0774
812 8644**

Annwyl Olygydd,

BIKES4AFRICA

Prosiect addysgol a gefnogir gan Rotari Rhyngwladol yw'r elusen uchod. Cesglir beiciau sydd yn addas i blant dros 10 oed, ac yna fe'u hadnewyddir a'u hanfon i'r Gambia, er mwyn i blant oed uwchradd, sydd yn byw mewn mannau anghysbell, allu mynychu ysgol heb orfod cerdded tua 10 milltir y diwrnod.

Cesglir beiciau yn yr ardal hon (Ardal Rotari 1180) gan Sam Reeves o Glwb Rotari Llanfairfechan a Phenmaenmawr, a fydd yn falch o glywed gan unrhyw un sydd gan feic mewn cyflwr gweddol. Byddai cyfraniad o £10 gyda phob beic, er mwyn adnewyddu ac allforio'r beic, yn dderbyniol iawn.

Medd Sam: "Cefnogwch ni i helpu plant y Gambia i fynychu ysgol."

**Yn gywir,
Georgina Llewellyn
01248 680861
beiciaugambia@gmail.com
Sam Reeves
01492 623 255
ges.reeves@tiscali.co.uk**

Mae mwy o wybodaeth am y fenter, yn ogystal â lluniau, ar safle gwe Bikes4Africa

Annwyl Syr/Madam

Cymdeithas Brodwaith Cymru

Fe wyddoch, mae'n siŵr, fod y Gymdeithas hon yn cynnig ysgoloriaeth o hyd at £300 i fyfyrwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg bob blwyddyn. Eleni yw'r pumed tro i'r Gymdeithas gynnig yr ysgoloriaeth hon. Enillwyd hi yn y pedair blynedd ddiwethaf gan fyfyrwr dawnus, a phleser oedd arddangos eu gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

Rydym wedi canfod mai'r ffordd orau i'r Gymdeithas ddenu ymgeiswyr am yr ysgoloriaeth o bob rhan o Gymru yw trwy gael cyhoeddusurwydd yn y papurau bro. Diolchwn i chi am wneud hyn yn y gorffennol a gofynnwn ichi wneud yr un peth eleni eto – pwt o erthygl neu gopi o'r llythyr hwn, efallai. Ydyddiad cau fydd 30 Ionawr, 2013.

I gael ffurflen gais neu ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwenfyl Jones,
Meini Diddos, Prion Dinbych LL16 4SA.
gwenfylvjones@btinternet.com**

Dyfodol: Llais i'r Iaith

Diolch i ymgyrchu a phleidlais a chefnogaeth ariannol Cymry Cymraeg yn bennaf, mae gan Gymru Senedd, Deddf Iaith, S4C a Choleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae llawer wedi'i wneud mewn 50 mlynedd. Ond mae llawer mwy angen ei wneud dros y Gymraeg, a llawer mwy y gallen ni ei wneud gyda'n gilydd.

Mae Senedd yng Nghymru heddiw yn rhoi cyfle i ni wneud yn siŵr fod ein hiaith ni yn ganolog i bopeth sy'n cael ei basio o ran deddf a rheolau eraill ym mhob rhan o'n bywydau. Cynllunio ac adeiladu tai, gwasanaeth iechyd, ysgolion a cholegau, amgylchedd cynaliadwy, gofal a lles pobl o bob oed... mae'r rhain i gyd yn feysydd sy'n gwneud gwahaniaeth i'r Gymraeg. Dyma lle mae'r iaith yn mynd i fyw... neu farw.

Y trueni mawr yw bod cyfle yn cael ei gollu bob dydd i gryfhau'r Gymraeg ym mhob maes gan nad oes yna neb yn gweithio i lobio dros yr iaith yn ein Senedd ym Mae Caerdydd. Mae gan bob mudiad arall dan haul sawl person yn lobio drostyn nhw, ond does neb yn gwneud hynny dros y Gymraeg.

Dyma'r ffordd i ennill brwydrau a gwneud gwahaniaeth, bellach. Roedd ymgyrchu a phrotestio yn gweithio cyn i ni gael Senedd. Mi ddylai fod yn bosibl cyflawni llawer rhagor erbyn hyn. Ond dydyn ni ddim yn defnyddio'r cyfle sydd ar gael.

Pwrpas sefydlu Dyfodol i'r Iaith yw newid hynny, a sicrhau bod pobl yn gweithio dros y Gymraeg yn y man mwyaf effeithiol posib – yng nghanol y gwleidyddion a'r gweision sifil yng Nghaerdydd. Mae angen cyflogi pedwar person proffesiynol i lobio dros y Gymraeg ar draws ystod eang o feysydd.

Er mwyn gallu talu cyflog y pedwar, mae angen swm mawr o arian. £200,000 bob blwyddyn. Swm anferth o edrych arno, ond swm y gallwn ni ei gasglu pe bai pawb yn helpu'n ymarferol i sicrhau dyfodol i'n hiaith. Mae miloedd o bunnoedd y flwyddyn wedi'u haddo'n barod gan aelodau Dyfodol i'r Iaith. Mae Dyfodol yn agored i unrhyw un sy'n caru'r iaith Gymraeg ac nid yw ynghlwm wrth unrhyw blaid wleidyddol nac yn derbyn unrhyw nawdd cyhoeddus.

£10 y mis yn unig yw tâl aelodaeth Dyfodol. A yw £10 y mis yn ormod i'w dalu er mwyn gwneud y Gymraeg yn iaith fyw ym mhob maes? A ydych chi am estyn llaw? Ydych chi am fod yn rhan o'r cyfle gorau erioed i warchod a datblygu'r Gymraeg?

Mae rhai wedi protestio, mae rhai wedi bod mewn carchar, mae rhai wedi rhoi llawer mwy na £10 y mis dros y blyneddau. Mae hwn yn gyfle arall i bob un ohonom ni. Nid mynd i lys barn, nid mynd i garchar, ond mynd i'n pocedi.

Cefnogwch y Gymraeg - er mwyn ei dyfodol. Ymunwch â Dyfodol. Rhowch Llais i'r Iaith. Ewch i'r wefan: www.dyfodol.net i gael ffurflen ymaelodi. Mae croeso i gyfraniadau ariannol, yn ogystal.

Yn ddiffuant

Bethan Jones Parry, Llywydd; Heini Gruffudd, Cadeirydd; Angharad Mair, Is-Gadeirydd; Richard Wyn Jones, aelod o'r Bwrdd, Meirion Llywelyn, Aelod o'r Bwrdd.

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ 600431

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☎ 601902

Diolch

Dymuna John a Mair, Bryn Onnen, Ffordd Bangor, ddiolch o galon i bawb am eu cyfarchion a'u dymuniadau da ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem ar 11 Hydref.

Diolch

Dymuna Eira, 29 Ffordd Ffrydlas ddiolch o galon i bawb am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd wedi triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Ysbyty

Mae David Davies, 7 Llain y Pebyll, wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen ac wedi treulio amser hefyd yn Ysbyty Gwynedd. Brysia wella Daf!

Ysbyty

Anfonwn ein cofion cywiraf at Mr J Kenneth Hughes, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty.

Profedigaeth

Daeth ton o dristwch dros Erw Las ar Hydref 24 gyda'r newyddion am farwolaeth Glyn Campbell. Roedd Glyn a'i wraig Hilda a'r plant Paul a Lynne yn un o deuluoedd gwreiddiol Erw Las. Roedd wrth ei fodd yma, ac ers talwm gwelwyd ef yn aml yn cicio pêl gyda phlant y stad. Bu'n ergyd fawr i'r teulu a chyfeillion pan gollodd Paul ei fywyd o ganlyniad i ddamwain.

Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Llandygai, ble treuliodd ei blentyndod, dydd Iau Tachwedd 1af. Dyma'r hyn oedd gan Dilwyn Owen, sef ffrind a chymydog, i'w ddweud yn ei deyrnged: "Roedd Glyn bob amser yn barod i helpu pobl a fo oedd y cyntaf i gyrraedd os oedd unrhyw broblem neu argyfwng yn bod. Roedd yno yn helpu pobl i osod lawntiau. Roedd yno pan oedd unrhyw un â phroblem blymio. Roedd y cyntaf gyda rhaw yn ei law pan oedd eira'r gaef yn cau'r lôn a llenwi'r mynedfeydd i'r tai. Roedd yno yn galw heibio i bobl oedd yn methu mynd allan oherwydd afiechyd, ac yn barod i nôl neges neu unrhyw beth arall.

Yn wir Glyn oedd y "Neighbour Watch" gwreiddiol ymhell cyn i'r

term gael ei fathu, gan iddo wybod beth oedd yn mynd ymlaen ymhob cornel o'r stâd."

Anfonwn ein cydymdeimlad atoch Hilda, Lynne ac Andy, Elliot a Sam a'r teulu oll yn eich profedigaeth o golli priod, tad a thaid arbennig.

Dymuna Hilda, Lynne a'r teulu ddiolch i bawb, yn deulu, cymdogion a ffrindiau, am eu caredigrwydd, yr holl ymweliadau, y cardiau a'r rhoddion er cof am Glyn. Diolch i bawb am eu trefniadau trylwyr yn yr angladd.

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Michelle Taylor, Gwêl y Nant, a Lee Williams ar eu dyweddïad.

Apêl

Os oes gennych fore neu b'nawn rhydd ac awydd darllen Llais Ogwan ar CD ar gyfer y deillion, a fyddwch cystal â chysylltu efo Mary ar 600274. Gwneir hyn yn fisol mewn stiwdio arbennig yng Nghanolfan y Deillion ar y Stryd Fawr ym Mangor.

Diolch

Dymuna Eleanor, Richard, Bryn Caseg, a'r teulu oll ddiolch i'r ardal gyfan sydd wedi dangos caredigrwydd trwy alwadau ffôn ac ymweliadau yn ystod cyfnod hir Eleanor yn yr ysbyty. Diolch i bawb am yr holl roddion personol, a, hefyd, am yr arian sydd wedi ei dderbyn tuag at yr apêl i brynu offer i Ward Alaw. Mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu i chwyddo cronfa'r Apêl, ond mae'r dyddiadau eto i'w cadarnhau. Gobeithir eu cael yn y rhifyn nesaf o'r Llais.

Llongyfarchiadau

Rydym yn llongyfarch Gareth Jones, Bryn Caseg, ar lwyddo i gael gwaith yn ei ddewis faes, sef coedwigaeth. Mae'n gobeithio cychwyn ar ei waith newydd yn y dyfodol agos. Pob hwyl iti, Gareth.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA yng Nghapel Jerusalem CYHOEDDIADAU'R MIS

Tachwedd 18

Mr. Richard Ll. Jones

Tachwedd 25

Y GWEINIDOG

Rhagfyr 2

Parch. Cledwyn Williams

Rhagfyr 9

Aelodau (10.00)

Karen Owen (5.00)

Rhagfyr 16

Y GWEINIDOG

Estynnir croeso cynnes i
bawb i oedfaon Sul

Bore Gwasanaeth ac Ysgol Sul
am 10.00

Hwyr Gwasanaeth am 5.00

Llwyddiant Nofio



Llongyfarchiadau mawr i Catherine Elin Roberts, 1, Glanogwen, are ennill 5 medal ym Mhencampwriaeth Clwb Nofio Bangor. Da iawn chdi, Catherine. Yn y llun gwelir Catherine gyda'i medalau.

Merched y Wawr Cangen Bethesda

Nos Iau, Hydref 25ain cawsom noson ddiddorol o dan lywyddiaeth Y Fns. Elina Owen. Daeth Sefydliad y Merched, Carneddi, a llawer o ffrindiau i ymuno â ni. Derbyniad ymddiheuriadau gan Jean Northam, Eirwen Griffiths, Thelma Williams a Brenda Owen, a byddwn yn llwyr obeithio y byddant yn teimlo'n well yn fuan. Hefyd 'roedd Pat Corns wedi methu a bod yn bresennol oherwydd galwadau teuluol. Ar y llaw arall, hyfryd oedd croesawu Einir, merch Elena, wedi dod i fyny o Gaerdydd, a phawb yn mwynhau ei chwmmi. Pleser hefyd oedd llongyfarch Jean Ogwen ar ei phen-blwydd ac Eirlys (Cefni) ar ei hymddeoliad.

Ond i droi ein golygon at y Crefftwyr Lleol gyda'u doniau talentog. Cawsom ymddiheuriad gan Delyth Jeffreys ei bod wedi cael y 'ffliw' a John o Rachub (Crefftau Ogwen) sydd yn arddangos gwaith coed. Fodd bynnag, cawsom bum stondin ardderchog, sef:-

Angharad Hughes gyda'i gwaith llaw ardderchog, clytwaith a.y.y.b. Janet Jones – cardiau o bob math (gwerthwyd er budd uned Ymchwil Cancr)

Linda Pritchard – 'Crefftau Howget' - llawer o anrhegion Nadolig safonol. Michele gyda'i stondin 'Popeth Neis' - sebon a.y.y.b. Siwsan (Tan y Graig gynt) –mwclis a gemau o bob math (llawer o'r defnydd crai o Affrica).

Diolchodd y llywydd yn gynnes iawn iddynt am ddod a'u cynnyrch i'w arddangos, pob un o safon uchel, ac i'r merched a fu'n paratoi'r Rhoddwyd y wobwr lwcus gan Eirwen Griffiths a'r enillydd oedd Jennie Jones.

Byddwn yn edrych ymlaen am ein cyfarfod nesaf ar Dachwedd 29ain, pan fydd Dr. Dafydd Roberts ac Enid yn son am 'Y Daith i Malawi'. Croeso cynnes i bawb.

Cyfarchion Nadolig

Er nad yw Mrs. Betty Owen, 12 Glan Ffrydlas, am anfon cardiau Nadolig eleni, mae'n dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau a'i chymdogion i gyd.

Yr Eglwys Unedig Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes

Mae nifer fawr o'n haelodau heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Anfonwn gofion atoch ble bynnag y boch, yn yr ysbyty, mewn cartref gofal, cartref nyrsio neu adref. Dymunwn adferiad buan i bob un ohonoch. Cofion hefyd at y gofalywyr sydd yn edrych ar eich holau. Rydym yn colli eich cwmni i gyd.



Llawenydd mawr i'r eglwys yw gweld pedwar blaenor newydd wedi cymryd eu lle yn y sedd fawr ac eisoes wedi dechrau ar eu dyletswyddau. Ordeinwyd y pedwar sef Owen John Ifans, Rhiannon Ifans, Minnie Lewis a Menai Williams, ynghyd â blaenoriaid o Berea Newydd a Rhosgadfan mewn cyfarfod arbennig o Henaduriaeth Arfon yn Berea Newydd, nos Fawrth, Hydref 23. Dymunwn bob bendith ar eu gwaith.

Cynhaliwyd y Cyfarfodydd Diolchgarwch eleni ar Hydref 15. Cynhaliwyd dau gyfarfod gweddi arbennig iawn, y naill dan ofal Walter Williams a'r llall dan ofal Emyr Roberts. Cafwyd gair gan y Gweinidog yn y ddau gyfarfod. Yng nghyfarfod y bore cymerwyd rhan gan Walter Williams, Menai Williams, Minnie Lewis ac Emlyn Evans ac yng nghyfarfod y nos gan Emyr Roberts, Olwen Williams, Heulwen Roberts, Mair Jones a Sioned Williams.

Ar waethaf tywydd stormus daeth nifer dda i Gyfarfod y Chwirydd nos Iau, Hydref 11. Y gŵr gwadd oedd Y Parch. Harri Parri, Caernarfon. Soniodd am ei fagwraeth ym Mhen Llŷn a'r dylanwadau cynnar arno. Roedd ganddo nifer o luniau diddorol i'w dangos. Diolchwyd iddo ac i'r pwyllgor a oedd yn gyfrifol am y te gan Muriel Williams.

Cafwyd noson ddiddorol arall nos Fercher, Hydref 3 dan nawdd y Gymdeithas Undebol. Daeth Geraint Thomas, sydd yn cadw siop yng Nghaernarfon ond yn byw yn ardal y Bala, atom i sôn am dynnu'r lluniau ar gyfer y gyfrol "Cyfrinachau Llynnoedd Eryri". Soniodd hefyd am y gwaith sydd ar fynd ganddo ar hyn o bryd, sef cywaith o farddoniaeth a lluniau ar y cyd gyda'r Athro Gwyn Thomas. Y Gweinidog oedd yn llywyddu ac yn talu'r diolchiadau.

Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn gan y Blaenoriaid yn ystod y mis.



Mae'r bobl ifanc sydd yn cyfarfod bob nos Fawrth yn brysur yn paratoi bocsys apêl Plentyn y Nadolig ar hyn o bryd. Diolch iddynt am yr holl waith y maent wedi'i wneud eisoes, gan gynnwys plannu blodau i harddu cynteddau'r capel. Diolch hefyd i ferched y Clwb Celf am eu hymdrechion hwythau. Eu prosiect diweddaraf ydyw gwau topiau a chapiau bach ar gyfer babis "Fish and Chips", Malawi, hynny yw y babanod bach a'u mamau heb ddim i lapio amdanynt ond tudalennau papur newydd. Diolch am gyfle i gofio am y plant yma a'u tebyg sy'n crefu am friwsion ein byrddau.

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Pob bore Sul am 8.00am - Cymun Bendigaidd
Sul Cyntaf pob mis - "Llanast yn y Llan" (Gweler isod)
Ail a thrydydd Sul pob mis - Cymun Bendigaidd Cymraeg
Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaidd dwyieithog
Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Phentir (Lleoliad i'w gyhoeddi.)

Trefniadau Mis Rhagfyr:
Sul, 2 Rhagfyr - Adfent 1
8.00 y bore - Cymun Bendigaidd
11.00 y bore - Cymun Teuluol

Sul 9 Rhagfyr - Adfent 2
8 y bore - Cymun Bendigaidd
10.30 y bore - Ysgol Sul
11 y bore - Cymun Teuluol

Sul 16 Rhagfyr - Adfent 3
8 y bore - Cymun Bendigaidd
11 y bore - Cymun Bendigaidd

Mercher Rhagfyr 19
4.00 y pwnn,
Te Parti i'r plant. Croeso i bawb.

Sadwrn Rhagfyr 22
10.00 y bore. Addurno'r Eglwys ar gyfer y Nadolig.
Dewch i helpu.

Sul 23 Rhagfyr - Adfent 4
8 y bore - Cymun Bendigaidd
10.30 y bore - Ysgol Sul
11.00 y bore - Naw Llith a Charol

Llun Rhagfyr 24 - Noswyl Nadolig
8 y bore - Cymun Bendigaidd

Pob bore Mercher am 10.30am
Cymun Bendigaidd

Llanast yn y Llan - Na nid Llanast go iawn!! Rhyw fath o wasanaeth teuluol anffurfiol. Dewisr thema ar gyfer y gwasanaeth ac mae cyfle i brofi gweithgareddau ymarferol a chreu arddangosfa.

Cyfle i blant ac oedolion gael hwyl wrth addoli. Ar ddiwedd y gwasanaeth trefnir lluniaeth i bawb. Dewch draw ar Sul cyntaf y mis i weld beth sy'n mynd ymlaen.

Arch Noa. Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae yn cyfarfod yn Ysgol Abercseg pob bore Llun am 9.15am.

Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod.

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda ☐
☎ 600689

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Gwynfor a Nerys Jones yn eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw modryb Nerys yn y Felinheli. 'Rydym yn meddwl amdanoch yn eich colled..

Brysiwch wella
Mae Mrs Nita Jones, 53, Braichmelyn, wedi derbyn triniaeth i'w llygaid yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau am wellad llwyr a buan ichi, Nita

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs
Caffi Fitzpatrick 11.00 - 12.00
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis
Peint a Sgwrs
Douglas Arms Bethesda
20.00 - 21.00
Trydydd Nos Lun pob mis

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Gwasanaethau

18 Tachwedd Mr. John Closs
25 Tachwedd Parch. Carys Ann
02 Rhagfyr Mr. Huw Tegid
09 Rhagfyr
Parch Cledwyn Williams
16 Rhagfyr I'w gyhoeddi
23 Rhagfyr
Gwasanaeth Nadolig

Oedfaon am 2 o'r gloch.
Croeso Cynnes i bawb.

Oedfaon am 2.00 .
Croeso cynnes i bawb.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

'LLENWI'R CWPAN'
Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Pen-blwydd Arbennig
Bu Ronald Roberts o Llanelwy (gynt o Tyddyn Canol) yn dathlu ei benblwydd yn 80 mlwydd oed ar 8 Tachwedd. Dymunwn benblwydd hapus iddo gan obeithio ei fod wedi mwynhau'r parti! Pob hwyl!

Cyfarchion Nadolig
Mae Augusta Williams, 7 Bron Arfon, yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau a'i chymdogion i gyd drwy gyfrwng LLAIS OGWAN. Ni fydd yn anfon cardiau eleni.

CARMEL LLANLLECHID Te Bach

Prynhawn Llun
19 Tachwedd ac
17 Rhagfyr 2012
2.30 - 4.00

Croeso Cynnes i Bawb

CARMEL LLANLLECHID Ffair Nadolig

Nos Wener
30 Tachwedd 2012
6.00 - 8.00

Stondinau Amrywiol
Mins Peis a Phanad
Tocyn £1.00

Croeso Cynnes i Bawb

CAPEL CARMEL Gwasanaethau

Tachwedd 18
Parch G. Williams 5.00
Tachwedd 25
Parch J. Owen 5.00
Rhagfyr 2
Gweinidog 2.00 a 5.00
Rhagfyr 9
Parch/Dr. S.A. Owen 2.00
Rhagfyr 16
Oedfa'r Nadolig 5.00

Yr Ysgol Sul 10.30 y bore
Dwylo prysur, nos Wener 6.30.

Croeso Cynnes i Bawb

CARMEL – YR YSGOL SUL

Yn ôl yr arfer, y plant a'r bobl ifainc a gynhaliodd y Gwasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaef. Daeth cynulleidfa ardderchog i ymuno yn y mawl a'r diolch. Aeth casgliad y noson tuag at gardiau casglu'r plant at y Genhadaeth. Helpu pobl yng ngwledydd tlotaf y byd yw un o amcanion pennaf y C.W.M.



Dyma rai o'r plant gyda model o felin wynt yr oeddynt wedi ei wneud ar gyfer y Gwasanaeth.

Mae pawb yn yr Ysgol Sul yn anfon eu cofion a'u dymuniadau gorau at Leon Williams o Faes Bleddyn, sydd wedi bod yn derbyn triniaeth yn ysbyty Alder Hey, Lerpwl. Bu Leon a'i chwaer Sophie yn ffyddlon iawn i'r Ysgol Sul. Brysya wella, Leon.

Clwb Dwylo Prysur

Ddiwedd y mis, bu aelodau'r Clwb ar ymweliad â Chapel bach Nant y Benglog. Diolch i Mr Ifor Glyn Ifans am ddod atom i ddweud hanes yr achos yno. Aethpwyd ymlaen i Fetws y Coed i gael bwyd a golwg ar y siopau, cyn parhau â'r daith, ymlaen i Blas Gwydir, Llanrwst. Mwynhawyd gweld yr ystafelloedd a'r celfi o fewn yr adeilad, sydd yn dyddio o gyfnod y Tuduriaid. Roedd y gerddi yn hardd, a'r peunod sydd yno yn urddasol a lliwgar.



Aelodau'r Clwb yng ngerddi Plas Gwydir.

Gwellhad Buan

Mae'n dda cael adrodd bod Christine Jones, Tan y Garth, wedi dod adref ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Bocsiwr

Trefnwyd twrnament bocsi gan Glwb Bocsi Caernarfon yng Ngwesey Meifod, Bontnewydd ar Hydref 19. Un a gamodd i'r sgwâr bocsi oedd Sean Carson, 15 oed, o Lwyn y Bedw, Rachub. Llwyddodd i ennill ei frwydr yn erbyn Liam Parry o Glwb Bocsi Gemini, Lerpwl, a derbyniodd hefyd wobwr y bocsiwr gorau gan ddyfarnwyr a swyddogion y twrnament. Llongyfarchiadau, Sean, ac edrychwn ymlaen i glywed mwy o'th hanes yn y dyfodol!



Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Stephen, Michelle a'r genod, Abbie a Seren, Ffordd Llanllechid, a'r teulu i gyd, ar achlysur trist marwolaeth mam Stephen, sef Mrs Linda Edwards, Gaerwen. Un o'r Gerlan oedd Mrs Edwards yn wreiddiol, cyn symud pan yn blentyn i fyw i Sir Fôn. Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel Disgwylfa, Gaerwen, ac yn dilyn hynny fe'i claddwyd ym mynwent Coetmor.

CAPEL BETHEL

Gwasanaethau

Tachwedd 18
Mr. Richard Lloyd Jones
Tachwedd 25
Dr. Dafydd Wyn Williams
Rhagfyr 02 Ms. Nerys Griffiths
Rhagfyr 09 Gweinidog
Rhagfyr 16
Mr. Alun Wyn Rowlands
Rhagfyr 23 Dr. Tudur Ellis

Oedfaon am 2.00 o'r gloch.

Croeso cynnes i bawb.

Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Llongyfarchiadau

Rydym yn llongyfarch Angela Davies, Rallt Uchaf, ar ddod yn nain i efeilliaid. Ganed Harri Gwyn a Jac Gwyn i fab Angela, Kevin, a'i gymar, Amii, sy'n byw yn Stryd Cefnfaes. Pob dymuniad da i chi i gyd.

Gadael yr ardal

Mae Delyth Briggs, Stryd y Ffynnon, wedi gadael y Gerlan ac wedi symud i fyw a gweithio yn Lerpwl. Rydym yn dymuno'r gorau i Delyth yn ei gwaith a'i chartref newydd. Bydd colled fawr ar dy ôl yn y Gerlan

Geni

Llongyfarchiadau i John a Ceri, Stryd Goronwy, ar enedigaeth merch fach, Mia Lois. Ein dymuniadau gorau i chi fel teulu

Gwobrau

Llongyfarchiadau i blant y Gerlan a gafodd eu gwobrwyo yn Noson Wobrwyo Ysgol Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Da iawn, bob un ohonoch!

Adref o'r ysbyty

Mae rhai o drigolion y Gerlan wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar, ond braf yw nodi eu bod i gyd adref yn awr. Rydym yn gyrru ein cofion gorau ac yn dymuno gwellad llwyr a buan i

Alun Ogwen Thomas, Ffordd Gerlan; Anita Williams, Gwernydd; Tecwyn Hughes, Ffordd Gerlan; a Siân Griffith, Ffordd Gerlan. Ein dymuniadau gorau i chi i gyd

O Efrog Newydd

Clywsom Gwenfair Jones, sy'n wreiddiol o Gwernydd, yn siarad ar y radio yn ddiweddar. Mae Gwenfair yn byw ers peth amser yn Efrog Newydd, ac roedd yn siarad am y storm enfawr a drawodd y ddinas honno, gan wneud cymaint o lanastr a difrod. Roeddem yn falch iawn o glywed fod Gwenfair

yn iawn. Rydym yn edrych ymlaen i'w gweld adref unwaith eto, pan fydd yn ymweld gyda'i mam, Mrs Jane Jones, Gwernydd

Gwasanaeth bwisiau

Roedd cynlluniau ar droed i ddiweddu gwasanaeth bwisiau i Gerlan ar ôl 6 y nos o Dachwedd 5ed ymlaen. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau, daeth y newyddion da fod y gwasanaeth am barhau fel ag y mae i'r dyfodol. Mawr obeithio y bydd defnydd helaeth ar y bwisiau hyn, rhag inni golli'r gwasanaeth.

Priodas



Yn ddiweddar priodwyd Kerry a David, Stryd Goronwy. Dyma lun o'r pâr ifanc ar yr achlysur arbennig. Gyda hwy, mae eu mab bychan, Ethan John.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Cydymdeimlo

Estynir cydymdeimlad dwys at Mrs. Hilda Cambell, 11 Erw Las, Bethesda a'r teulu oll ar farwolaeth Mr. Glyn Cambell, gŵr, tad a thaid annwyl iawn.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Miss Olwen Thomas, Talybont gynt. Bu ei hangladd yn Eglwys Maes-Y-Groes brynhawn Mercher, 24 Hydref a chladdwyd ei gweddillion ym mynwent yr eglwys. Ein cydymdeimlad dwys a Muriel ei chwaer a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da at Jill Bullen, Ernie a Nerys Coleman, Dei Edwards Jim a Beryl Hughes, Dr. Pam

Jones, Olwen Lytham, Betty Williams a Dorothy Proudley-Williams, hefyd y rhai sydd yn hoffi bod yn ddi-enw. Llwyf wellhad i chwi a gobeithio y gallwch osgoi'r fflw eleni eto.

Bingo

Cynhaliwyd Bingo yn Neuadd Talgai ar nos Fawrth 18 Hydref a gwnaed £65 o elw i'r neuadd. Bu un gwr bonheddig yn lwcus iawn, fe enillodd ef lond trol o wobrau - go dda, Robin!

Y gweddill ohonoch na ddigalonwech, fe ddaw eich tro chwi yn y misoedd nesaf yma - gobeithio!

Diolch fel arfer i Pauline a Raymond am drefnu'r noson, i ferched y baned ac i'r aelodau eraill am eu cefnogaeth.

Balch oeddem o glywed fod Pauline wedi gwella ar ôl pythefnos digon diflas yn dioddef gydag alergedd i'w llygaid.

Eglwys Sant Tegai

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion anwylaf at Mrs. Jane Couch, Mrs. Beryl Edwards, Mr. Gwynne Edwards, Mr. Harry Gross a Mrs. Liz Jones. Dymunwn adferiad buan i chi i gyd.

Penblwydd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Callum a fydd yn dathlu ei benblwydd ar ddydd Sadwrn, 17 Tachwedd. Gobeithio y cei ddiwrnod hapus, Callum a llawer o gardiau ac anrhegion gan y teulu a'th ffrindiau.

Profiad Dysgu

Mae Gwenan wedi cyrraedd Montpelier, De Ffrainc ac wedi setlo i lawr erbyn hyn. Mae wedi dechrau gweithio mewn ysgol uwchradd ym Montpelier lle y bydd yn dysgu Saesneg i'r plant. Bydd yn siwr o fod wrth ei bodd yno, gan fod gan y teulu dy yn Ffrainc a hithau wedi arfer mynd yno bob gwyliau ysgol, ac i goroni'r cyfan mae Gwenan yn rhugl yn Ffrainc. Pob lwc iddi.

Swper Cynhaeaf

Diolch o galon i aelodau Eglwys y Santes Fair, Tregarth am eu croeso cynnes i ni ar nos Fercher, 3 Hydref i swper y cynhaeaf ardderchog. Roedd y bwyd wrth fodd pawb gyda digon o ddewis a nifer dda wedi troi i mewn. Roedd Linda Irons gyda marchod y cor 'Cantabile' yn canu clychau llaw ar ol y swper, ac fe aeth hynny i lawr yn dda hefyd. Diolch yn fawr i chwi i gyd am noson ddfyfr dros ben.

Gosber y Cynhaeaf

Nos Sul, 7 Hydref cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch dan arweiniad y ficer, y Parchedig John Matthews, a Mr. Geraint Gill oedd yr organydd. Roedd yr eglwys wedi ei harddurno yn hard gan Hazel a'r merched a diolch yn fawr iddynt i gyd. Croesawyd pawb i'r neuadd ar ol y gwasanaeth i gael coffi a sgwrs. Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr offerau ac i'r merched fu'n gweini yn y cegin.

Diolch

Diolch i Mr. Keith Irons am gymryd gwasanaeth y Foreol Weddi ar fore Mercher, 10 Hydref a hefyd fore Sul, 28 Hydref. 'Rydym bob amser yn falch o'i weld a chredaf ei fod ef a Linda yn mwynhau cael bod gyda ni yn Sant Tegai hefyd.

Glasingfryn Caerhun

Marred Glynn Jones

2 Stryd Fawr, Glasingfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Llongyfarchiadau

i Dylan a Sharon, Yr Hen Ardd, Caerhun ar enedigaeth eu mab bach - Caio Dylan. Cafodd Caio ei eni ar Fedi 23ain - diwrnod penblwydd Sharon! Mae Caio yn wŷr bach cyntaf i Hefin a Nesta Parry, Tŷ Capel. Mae pawb wedi mopio'n lân.

Sefydliad y Merched

Bu cyfarfod y sefydliad nos Fercher 10fed o Hydref dan lywyddiaeth Mrs Ingrid Farrer. Croesawyd pawb yn gynnes iawn gan longyfarch Nesta a Hefin Parry Tŷ Capel, Caerhun ar ddod yn Nain a Thaid i fachgen bach - Caio Dylan. Pob hwyl iddynt efo'r bychan.

Derbyniwyd cerdyn o ddiolch gan Mrs Elsie Oswald Jones ar ôl iddi ddathlu pen-blwydd arbennig. James Shand oedd y gŵr gwadd -

bachgen sydd yn Henfaes, Abergwyngregyn yn astudio am ddoethuriaeth dan ofal Mr David Shaw.

Tomatos oedd ei destun.

Deallasom fod y rhain o'r un teulu â thatws sydd yn debygol o gael clwy' y 'blight'. Dangoswyd ffilm o'r mathau o domatos sy'n cael eu tyfu - rhai gwyllt, rhai gwenwynig, rhai ar gyfer gwneud sos coch ac wrth gwrs, rhai i fwyta. Roedd yn sgwrs ddiddorol a gwyddonol.

Y ddau beth sydd eisiau cofio, meddai James, yw:

- 1) Peidio â bwyta tomatos yn syth o'r rhewgell (gwell byth peidio â'u cadw yn y rhewgell)
- 2) Ychwanegu siwgr i'r tomatos wrth eu bwyta neu goginio.

Mae rhywun yn dysgu rhywbeth newydd bob dydd!

Diolchwyd i James gan Mrs Janet Rees a pharatowyd y baned gan Mrs Margaret Hughes a Mrs Elizabeth Evans.

Clwb Cant Y Ganolfan

Mis Hydref

£20 - 52 - Elizabeth Evans
£10 - 26 - Margaret Khan
£5 - 34 - Barbara Jones

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Priodas Aur

Dathlodd Ron a Thelma Williams 68, Bro Emrys eu priodas aur ar y 15fed o Fedi. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt am lawer o flynyddoedd eto.

Pen-blwydd i'w gofio

Llongyfarchiadau i Mrs Mari Jones, 67 Bro Emrys ar ddathlu ei phen-blwydd yn 93 mlwydd oed. Cafodd barti yn ei chartref a thrip i gopa'r Wyddfa fel anrheg penblwydd gan ei hŵyr Paul a'r teulu.

Marwolaeth

Drwg gennym glywed am farwolaeth Mrs. Elsie Armstrong (gynt o 3 Cae Gwigin) yng Nghartref Plas Garnedd, Llanberis, ar 31 Hydref, wedi blynyddoedd o waeledd. Roedd yn 89 mlwydd oed ac yn briod ffyddlon i'r diweddar Colin, yn fam annwyl i Olwen a Glyn, ac yn nain a hen-nain hoffus. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at y teulu a'r cysylltiadau i gyd yn eu profedigaeth.

Eglwys Maes y Groes

Mewn cartref nyrsio yn Walsall, ar y 15fed o Hydref, bu farw Olwen Thomas, 4 Dolhelyg gynt. Cynhaliwyd yr angladd ar y 24ain o Hydref, ar ei phen-blwydd yn 92 oed, yn Eglwys Maes Y Groes lle bu'n aelod ffyddlon am flynyddoedd.

Gwasanaethwyd gan ein ficer, y Parchedig John Mathews, gyda Barry Wynne yn cyfeilio.

Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent yr Eglwys. Cydymdeimlwn â'i chwaer, Muriel, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Hoffai'r teulu ddiolch i ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag at Olwen yn ystod ei blynyddoedd olaf. Diolch hefyd am y rhoddion er cof amdani.

Ar nos Fawrth y 9fed o Hydref cynhaliwyd noson Gaws a Gwîn yn yr Ysgoldy. Diolch i Cora a Howard Hutchinson am drefnu'r noson lwyddiannus ac i bawb am eu cefnogaeth, ac am y rhoddion at y raffl. Gwnaed elw o £200.

Diolch yn fawr i Peter Brindley am ei anerchiad ar gardiau post doniol o Gymru. Yn anffodus fe dorrodd y peiriant cyn cael gorffen y sgwrs ond edrychwn ymlaen at ei glywed yn ystod y misoedd nesaf i gwblhau'r anerchiad.

Capel Bethlehem, Talybont

Cyhoeddiadau

Tachwedd 18 : Parchg. Eifion Wyn Williams ;
Tachwedd 25 : Gweinidog ;
Rhagfyr 2 : Parchg. Harri Owain Jones ;
Rhagfyr 9 : Parchg. Euros Wyn Jones, Llangefni ;
Rhagfyr 16 : Oedfa Nadolig i'r Teulu
(yng nghwmni plant yr Ysgol Sul)

**Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.**

Dathliadau'r 150 – Diolchiadau

Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth i'r dathliadau mawr ym Methlehem ym mis Hydref. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y dathlu mewn gwahanol ffyrdd, trwy roi o'u doniau, eu hamser a'u harian!



Dyma lun o'r criw fu'n glanhau'r capel a'r festri cyn yr achlysur

Dathlu a Diolch y Plant



Roedd dwy thema i'r Oedfa Deuluol a gynhaliwyd bawn Sul, 14 Hydref, sef dathlu'r 150 mlwyddiant a'r Diolchgarwch. Diolch i blant yr Ysgol Sul am gymeryd rhan flaenllaw yn yr oedfa ac i Barbara Jones am drefnu'r cyfan. Cafwyd te parti i bawb yn y festri wedyn, ac Alys Haf, cynorthwy-ydd yn yr Ysgol Sul yn torri'r gacen benblwydd arbennig.

Dathlu 150 mlynedd y Capel Presennol

Cynhaliwyd y prif ddathliadau ar ddydd Mercher, 17 Hydref, 2012 pan ddaeth cynulleidfa deilwng iawn ynghyd i'r cyfarfodydd.

Y Parchedig Ddr. Geraint Tudur oedd y pregethwr gwadd yn Oedfa Bregethu'r Dathlu a gynhaliwyd am 4.30yp, ac yn ôl y disgwyl cafwyd pregeth rymus ganddo. Pwysleisiodd mai'r hyn yr oeddem yn ei ddathlu mewn gwirionedd oedd yr hyn a ddigwyddodd oddi fewn i'r capel dros y blynyddoedd yn hytrach na'r adeilad ei hunan.

Wedi'r oedfa gwahoddwyd pawb i'r festri am de ac i edrych ar yr arddangosfa luniau.



Torrwyd y gacen ben-blwydd arbennig gan bâr priod hynaf yr eglwys sef Llewelyn ac Enfys Jones, a briodwyd 64 o flynyddoedd yn ôl.

Am 6.30yh cafwyd Cyfarfod Dathlu llwyddiannus dan lywyddiaeth ein gweinidog, Y Parchedig Geraint S. R. Hughes, gyda Mrs. Jean O. Hughes, diacon a thrysorydd yr eglwys, yn cyflwyno'r rhannau arweiniol. Neville Hughes, ysgrifennydd yr eglwys, gyflwynodd fraslun o Hanes yr Achos ar lafar ac ar gân*, cyn i'r llyfryn o'i waith "Dathlu Canrif a Hanner y Capel Presennol" gael ei lansio.

Yna croesawyd nifer o wahoddedigion, a gyflwynodd gyfarchion ac atgofion, sef Y Parchedig Hugh John Hughes, Pendref, Bangor (Llywydd Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon), J. Ronald Williams, Salem, Caernarfon (Lywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg), a'r Dr. Geraint Tudur (Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).

Yn dilyn cyflwyniad gan y gantores Helen Wyn, (sydd yn un o blant yr eglwys), o addasiad o'r gân "Yr Hen Capel Bach" croesawyd tri siaradwr arall i'r sedd fawr. Un arall o blant yr eglwys, a chyn athrawes Ysgol Sul Bethlehem, Mrs. Meriel Parry, ddaeth ymlaen yn gyntaf, ac fe gawsom atgofion difyr ganddi. Cafwyd cyfarchion gan gynrychiolwyr o'n dwy chwaer eglwys yn yr Ofalaeth, sef Mr. Thomas R. Jones, ar ran Carmel Llanllechid, a'r Parchedig John Owen ar ran Eglwys Unedig Bethesda.

Yn dilyn y Fendith cyflwynwyd copi o lyfryn y dathlu i bawb oedd yn bresennol.

Diolchwn i bawb am wneud hwn yn ddiwrnod i'w gofio, ond wrth fawrygu ein gorffennol mae'n bwysig ein bod yn meddwl am y dyfodol ac yn sicrhau y bydd drws agored ym Methlehem am flynyddoedd lawer eto.

Eglwys Annibynnol Bethlehem Talybont

Gwasanaeth Nadolig

yng nghwmni plant yr Ysgol Sul

Dydd Sul 16 Rhagfyr
am 2.00 o'r gloch

Casgliad at Apêl Nadolig Cymorth
Cristnogol

**Dyma'r gân a ganwyd gan
Neville Hughes wrth iddo
gyflwyno Hanes yr Achos :-**

Wyt ti'n cofio Capel Bethlehem?

(Geiriau : Neville Hughes.
Alaw : Dafydd Iwan.)

Wyt ti'n cofio Capel Bethlem
ym mil wyth cant chwe deg?
Ac aberth ein cyn dadau
i'w godi, chwarae teg;
Mentro dyled, mewn amser caled,
Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i ti!

Wyt ti'n cofio Tany Marian
yn dod i'r eglwys hon?
Ac o fewn rhyw bedair mlynedd
yn codi capel newydd sbon
Diolch iddo, wnawn ni heno,
Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i ti!

Wyt ti'n cofio'r hen ffyddloniaid,
â'r gynulleidfa'n gref?
A'r "Amen" a'r "Haleliwia"
yn cyrraedd hyd y Nef,
Cofio'r moli, a'r addoli,
Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i ti!

Wyt ti'n cofio'r hen bregethwyr
fu'n traethu yn y Tŷ?
Yn sôn am ras a chariad, ac aberth Iesu
cu,
Brawd a Cheidwad, a Duw yn gariad,
Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i ti!

Wyt ti'n cofio'r dagrau'n llifo
pan offrymwyd gweddi daer?
Gan werinwr ar ei liniau
yn cyfarch Mab y Saer;
Gweddi'r galon yn cyffwrdd dynion,
Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i ti!

Wyt ti'n cofio'r cymanfaoedd,
â'r canu'n codi'r to?
Yr emynau'n diasbedain
drwy'r muriau, dros y fro;
Moli'r Arglwydd mewn llawenydd
Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i ti!

Wyt ti'n cofio cenedlaethau
o blant yr ysgol Sul?
A'r athrawon fu'n eu dysgu
i geisio rhodio'r llwybr cul,
Gosod sylfaen i'r rhai bychain,
Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i ti!

Wyt ti'n cofio cant a hanner
o flynyddoedd yn fan hyn?
Cofio'r trai yn dilyn llanw,
ond mae'r fflam yn dal ynghynn
Heb ei diffodd drwy'r blynyddoedd,
Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i ti!

Eglwys Annibynnol Bethlehem Talybont Ffair Nadolig

yn Festri Bethlehem

Nos Fercher 28 Tachwedd
am 7.00 o'r gloch

Mynediad 50 ceiniog

Elw at y Capel a'r Ysgol
Sul

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ 601062

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Siân a Chris 25,
Bro Syr Ifor, ar enedigaeth Noah
Price Hodson, brawd bach i Lowri
Wyn. Mae Noah yn wŷr i Tegryd a
Rhian, Godre'r Parc, Sling, ac i
Dave a Val Hodson, Cyffordd
Llandudno. Dymuniadau gorau i
chi i gyd fel teulu.


Cydymdeimlo

Bu farw un o fechgyn Tregarth, sef
Rees Lloyd Owen, gynt o Erw Faen,
ar Hydref 19, yn ei gartref yn Llys
Bedwyr, Maesgeirchen, Bangor ac
yntau'n 60 mlwydd oed.

Cydymdeimlwn gyda'i briod Jean,
ei feibion Dafydd a Richard, ei
lysfeibion Carl a Neil, gyda'i
wyrion, ei frodyr a'i chwaer, sef
Gerwyn, Medwyn, Iolo, Sulwen,
Armon a'r diweddar Merville a
Gwynfon a'u teuluoedd. Yn
ddiweddar bu farw ei fam, Mrs
Gwenfron Owen, Bangor.
Cydymdeimlwn gyda chi i gyd fel
teulu yn eich profedigaeth o golli
Rees.

Ar Hydref 20 bu farw Tom
Litherland yn ei gartref ym
Mhorthaethwy. Arferai Tom a'i
ddiweddar briod Edna fyw yn
Penralla, Tregarth. Cydymdeimlwn
gyda 'i ferch June a'i fab David, ei
wyrion a'i orwyrion.

Bocsiwr



Dyma lun o Les Florence, 12 oed, o
Dregarth, a gymrodd ran mewn
turnament bocsi yng Ngwesty
Meifod, Bontnewydd yn
ddiweddar. Enillodd Les ei ornest
yn erbyn Connor Burns o Glwb
Bocsi Llandudno.
Llongyfarchiadau, a phob hwyl i'r
dyfodol!

Cylch Meithrin Tregarth

Bu'n hanner tymor prysur a chyffrous yn y Cylch, gydag ugain o blant
2 – 4 oed yn mwynhau dysgu a chwarae. Bu'r plant yn dilyn thema 'Y
Fferm', ac yn chwarae gyda 'fferm' wedi ei gwau'n arbennig ar eu cyfer
gan Anti Beryl – diolch yn fawr iddi.

Gan fod y niferoedd yn y Cylch wedi cynyddu, 'rydym wedi croesawu
sawl Anti newydd atom fel aelod o'r staff: Antis Jenny, Anwen, Carys
ac Amy, ac maent wedi cael hanner tymor prysur o dan arweiniad Anti
Beryl. Erbyn hyn 'rydym wedi rhoi croeso'n ôl i Anti Sioned hefyd, ar
ôl cyfnod mamolaeth. Diolch unwaith eto i Anti Beryl am ei holl waith
caled fel Arweinydd yn ystod y cyfnod a aeth heibio.

Cawsom neuadd lawn ar gyfer ein Disco Calan Gaeaf, a diolch i bawb a
gynorthwyodd ar y noson. Braff oedd gweld cymaint o blant yn
mwynhau eu hunain.

Eleni, mae criw o blant y Cylch yn aros yma ar gyfer y Clwb Cinio, cyn
mynd i Ysgol Tregarth yn y prynhawn. Bu'r criw yma hefyd yn rhan o'r
daith gerdded noddedig o amgylch y pentref gyda'r ysgol. Diolch i Mrs
Meriel Parry a staff yr ysgol am drefnu'r daith, ac am y rhodd a ddaeth
i'r Cylch yn sgîl y cerdded.

Edrychwn ymlaen at y Nadolig 'rwan, a gobeithiwn ail-ddechrau Ti a Fi
Tregarth, gan gynnwys Clinig Ymwelydd Iechyd, cyn bo hir.

Os oes gennych blant rhwng 2 a 4 oed a hoffai ymuno â'r Cylch,
cysylltwch â: Cylch Meithrin Tregarth ar 07825 406640. Dilynwch ni ar
'Facebook@ Cylch Meithrin Tregarth.

CAPEL SHILOH

Mae'n hyfryd cael croesawu dau aelod newydd at yr aelodau yn
Shiloh, sef Valerie a David Ellis Jones, Llanfairpwll. Maent yn symud
yn y dyfodol i fyw i hen gartref rhieni Val, y diweddar Audrey a
Laurence Davies, sef Glan Gors, Braich Talog. Magwyd Val yn Shiloh
ac mae'n braf iawn cael ei chroesawu hi a'i phriod yn ôl i gynulleidfa'r
capel.

Bore Sul, Hydref 28, dan ofal y Parchedig Gwynfor Williams
bedyddiwyd Elysteg, merch fach Gwenan a Dylan Efans, Garw,
Tregarth a chwaer Shwnamis a Caleb Lleu. Dymuniadau gorau i chi fel
teulu.

Gwasanaethau'r Diolchgarwch yn Shiloh

Dathlwyd y Diolchgarwch yn Shiloh gyda dwy oedfa arbennig iawn.
Bore Sul, Hydref 21, bu Oedfa Deulu dan ofal yr Ysgol Sul. Y plant a
ieuentid gychwynodd yr oedfa ac fel arfer roedd eu gwaith yn raenus
a naturiol dros ben. Y rhai a gymerodd ran oedd Osian, Morus a
Gwenlli Sanderson; Ifan, Nel a Myfi Cooke; Esme Crowe; Gwenno
Roberts; Shwnamis a Caleb Efans; Hannah Williams; Huw a Tomos
Morris Jones; Beca ac Ela Jones.

Yna croesawyd y Meddyg Connor Martin o Fangor, a ddaeth i sôn am
y flwyddyn a dreuliodd yn gweithio yng ngwlad Malawi yng
Nghyffandir Affrica fel meddyg ymysg brodorion tlawd y wlad honno.
Mae Connor bellach yn gweithio fel meddyg mewn ysbyty yn
Wrecsam. Daeth ei fam, sef y fferyllydd o Ysbyty Gwynedd, Mair
Martin, hefyd i'r gwasanaeth i sôn am ei phrofiadau yn y byd
meddygol, pan dreuliodd hithau gyfnod byr yn gweithio ym Malawi
gyda Connor. Drwy gyfrwng lluniau a hanesion trosglwyddodd y ddau
eu profiadau yn gweithio dan amodau anodd dros ben ac fel mae
Elusen Livingston yn parhau gyda'r gwaith ym Malawi yn helpu
gydag adeiladu clinigau ar gyfer gwaith meddygol angenrheidiol.
Gwnaed casgliad yn ystod y gwasanaeth a throsglwyddwyd £150.00
tuag at yr elusen. Diolchwyd i Connor a Mair am eu cyfraniad
arbennig i oedfa'r Diolchgarwch.

Nos Lun, Hydref 22, methodd y Parchedig Philip Barnett, Deganwy, a
dod i'n gwasanaethau yn yr Oedfa Ddiolchgarwch, ond trefnodd i'r
Parchedig Ifor Jones, Bae Colwyn, i ddod i gynnal yr oedfa yn ei le.
Roedd yn braf cael ei groesawu i Shiloh am y tro cyntaf.

Gwasanaethau yn Shiloh am yr wythnosau nesa.

Ysgol Sul am 10.30

Oedfa hwyr am 5.30

Tachwedd 18 Parchedig Olaf Davies, Llandegfan

Tachwedd 25 Parchedig Dafydd Hughes, Caernarfon

Rhagfyr 2 Parchedig Gwynfor Williams

Rhagfyr 9 Parchedig W.R. Williams, Y Felinheli

Rhagfyr 16 4o'r gloch Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul

Rhagfyr 23 Gwasanaeth Carolau

Rhagfyr 30 Trefniant Lleol

EGLWYS Y SANTES FAIR, Tregarth

Diolchgarwch am y Cynhaeaf

Cynhaliwyd Gwasanaethau Diolchgarwch ar 30 Medi, gyda Chymun yn y Bore a Hwyrol Weddi gyda'r Parchedig Huw Vaughan Jones, Amlwch, yn pregethu gyda'r nos. 'Roedd yr eglwys yn edrych yn hardd iawn wedi ei haddurno ar gyfer yr Wyl. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd. Ar 3 Hydref cynhaliwyd Swper Diolchgarwch yn yr eglwys, ac er gwaetha'r storm daeth nifer dda ynghyd i fwynhau'r lluniaeth a chael ein diddanu wedyn gan Ganwyr Clychau Cantabile. Diolch yn fawr iddynt am roi diweddglo hyfryd i'r noson ac i'r merched fu wrthi'n brysur yn darparu'r swper. Gwnaed elw o £316

Te Nadolig

Cynhelir Te Nadolig yng Nghanolfan Tregarth ar 27 Tachwedd o 2 – 4 yp. Bydd stondinau arferol, raffl a lluniaeth. Gwerthfawrogr unrhyw gyfraniadau tuag at yr achos gyda diolch.

Priodas

Llongyfarchiadau a phob bendith a dymuniad da i'r dyfodol i David Wyn Owen a Paula Williams ar eu priodas yn eglwys y Santes Fair ar 22 Medi.

Clwb Cant Gelli - Medi

£20	-	46	-	Mair Griffiths
£10	-	122	-	Adrian Pritchard
£10	-	105	-	Mrs Olive Davies
£5	-	113	-	Mrs Beryl Brown

Clwb Cant Gelli – Hydref

£20	-	24	-	Miss J Gordon
£10	-	42	-	Keith Irons
£10	-	168	-	Viv Williams
£5	-	80	-	Mrs Glenys Morgan

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Bydd y gangen yn cyfarfod yn Ffestri Capel Shiloh, Nos Lun, Tachwedd 8, am 7 o'r gloch pan ddaw Linda Pritchard, Rachub i wneud gwaith llaw gydag aelodau'r gangen. Croeso mawr i'r holl aelodau ac aelodau newydd.

Mynydd Llandygái

Theta Owen.
Gwél y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ 600744

Llongyfarchiadau

i Alan a Bronwen, Tyddyn Canol ar ddod yn hen daid a hen nain. Wedi gwirioni ar eneth fach. Hefyd fe ganwyd hi ar ben-blwydd Bronwen. Pob hwyl i chi a'r teulu.

Diolch

Hoffai Clwb y Mynydd ddiolch i'r Clwb Ieuenctid am drefnu bore coffi. Mae'r arian a godwyd at gostau bws cinio Nadolig yn Llandudno. Diolch i Ben a Elin a Iola'r arweinydd am eich gwaith caled.

Clwb y Mynydd

Cafwyd prynhawn difyr iawn; ein gŵr gwadd o 'Age Cymru' oedd

Mr. Maldwyn Roberts. Maent yn gwneud gwaith da, er enghraifft mynd i siopa, llenwi ffurflenni, cadw cwmpeini gyda rhai sy'n wael, er mwyn i'r teulu gael seibiant bach. Ar ôl paned bach diolchodd Fiona Sewell iddo ar ein rhan. Bydd y clwb yn mynd am drip i Gaer ar 21 Tachwedd a bydd y cinio Nadolig yn Rose Forr, Llandudno ar 5 Rhagfyr. Cofiwch roi eich enwau i Mr. Dei Parry

Cymeraf y cyfle i ddiolch i bawb yn Llais, hefyd pawb yn y pentref, ac i dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chwi i gyd.

Bydd y Clwb Garddio yn cynnal Marchnad Nadolig ar Rhagfyr 7fed am 7.00 yr hwyr. Stondinau, cacennau, siocled, torchau Nadolig ac addurniadau ar gael, mins peis, gwin poeth, te a choffi, edrychwn ymlaen at eich gweld.

Llongyfarchiadau i Mathew a Rhian ar enedigaeth mab bach, Johnathan, hefyd llongyfarchiadau i Chas a Iona Sewell ar ddod yn daid a nain, dymunwn bob hapusrwydd i chwi fel teulu.

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

Tach. 18:	9.45	Boreol Weddi
Tach. 25:	9.45	Cymun Bendigaidd.
Rhag. 2:	9.45	Gwasanaeth Teuluol.
Rhag. 9:	9.45	Cymun Teuluol.
Rhag. 16:	9.45	Gwasanaeth "Naw Llith a Charol".

Diolch i bawb a gefnogodd ein gweithgareddau dros y misoedd diwethaf - 'roedd yn bleser gweld cyfeillion yn ymuno â ni.

Cynhelir y Ffair Nadolig brynhawn Sadwrn, 24ain Tachwedd am 2 o'r gloch.

Bydd amrywiaeth o nwyddau ar werth gan gynnwys cacennau a gwaith llaw.

Cofiwch alw am baned a mins pei!

Os oes rhywun ohonoch yn dymuno derbyn cymun yn eu cartrefi eu hunain dros Wyl y Nadolig cysylltwch â'r Curad, Y Parchedig Jenny Hood, Rheithordy Llanllechid (605017).

Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd - brysiwch wella.

Pen-blwydd Hapus



Dyma lun o Mary Gweneth Griffith o Gors yr Eira, Mynydd Llandegai, yn dathlu ei phen-blwydd yn 99 oed yn ystod mis Hydref. Llongyfarchiadau mawr!

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 352835

Geni

Ddiwedd Hydref ganwyd merch, Madryn Lloyd, i Cynog a Meggan Prys gan gyfoethogi aelwyd 3 Caeau Gleision. Dymunwn i chwi iechyd a hapusrwydd fel teulu. Bydd genedigaeth Madryn yn sicr o ddod a llawenydd i'w thaid a nain ym Mangor yn ogystal, sef Roslyn a Delyth Prys. Yn anffodus gorfu i Roslyn gael llawdriniaeth yn Ysbyty Maelor, Wrecsam yn ystod yr un cyfnod ag y ganwyd Madryn. Anfonwn ein cofion ato gan dymuno iddo wellhad llwyr a buan.

Merched Y Wawr

Cyfarfu cangen Rhiwlas yn y Neuadd ar Hydref 9ed.

Llywyddwyd y noson gan Helen Broadley yr Is-lynydd yn absenoldeb Ann Roberts. Trafodwyd materion lleol a chenedlaethol ar ddechrau'r cyfarfod a gofynwyd i'r aelodau feddl am leoliad i'r cinio Nadolig fel y gellir ei drafod yn y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 13eg.

Rhoddyd croeso cynnes i'n siaradwr gwadd, sef Alwyn Oliver. Testyn ei sgws oedd 'O Gymru i odrau Everest'. Cafwyd mwynhad mawr yn gwrandao a hefyd gweld ar y sgrin am ei anturiaethau ar y ffordd i'r 'Base Camp'. Y golygfeydd o'i gwmpas yn syfrdanol a'r pontydd y bu rhai ei croesi yn frawychus. Roedd ei sgws yn gartrefol a diddorol a

phawb wedi mwynhau. Diolchwyd i Alwyn am noson hynod ddifyr gan amryw o'r aelodau.

Dymuno Gwellhad

Bu nifer o'r pentrefwyr yn Ysbyty Gwynedd am wahanol gyfnodau yn ddiweddar; sef Mair R. Roberts, 4 Hafod Lon. Mai Williams, 16 Bro Rhiwen, Maggie Jones 2 Rhes Penrhyn, Waun Pentir ac Ivor W. Hughes 107 Cae Glas. Ivor fel y caiff cyfle i gryfhau yn dilyn y llawdriniaeth ddwys a gafodd yn Ysbyty Walton, Lerpwl. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau atynt i gyd.

Mynegi Diolch

Dymuna Alwyn, Carys a theulu'r ddiweddar Rhiannon Evans, Gwenallt, 31 Bro Rhiwen, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth ddiweddar. Gwerthfawrogrir hefyd y cyfraniadau hael tuag at y Gymdeithas Alzheimer.

Llyfrgell deithiol

Tybed faint o'n darllenwyr sy'n gwybod bod y Llyfrgell deithiol yn galw yn rheolaidd yn y pentref unwaith y mis. Fel rheol mae'r dyddiad yn disgyn ar yr ail neu'r drydydd bore Mercher, ond gellir cael gwybodaeth fanylach trwy alw 01286 679463. Bydd y fan yn aros gerllaw y ciosg ffon ym Mro Rhiwen am 10.30 ac yna wrth y ffordd sy'n arwain i stad Cae Glas am 11.00. Mae dewis amrywiol o lyfrau ar gael, yn Gymraeg a Saesneg ac ar gyfer pob oed a diddordeb, ac mae'r cyfan am ddim.

Clwb Rhiwen

Bu dau gyfarfod yn ystod Hydref. Fferm Ty Mawr, Llanddeiniolen oedd lleoliad y cyntaf ble roedd Ann Williams wedi trefnu i'r aelodau gael cinio i gydfynd a'r wyl Diolchgarwch. Ni ellir canmol digon ar y pryd a gafwyd na'r darpariaeth a waned ar ein cyfer. Roedd pawb wedi'r cinio yn falch o ymlacio yn y lolfa eang i fwynhau

paned, clonc a sgwrs cyn cychwyn adref.

Un o'r aelodau, sef Deidre M. Jones a ofalodd am yr ail gyfarfod. Bu Deidre'n gweithio ym Mryn y Neuadd, Llanfairfechan am rai blynyddoedd gan gynorthwyo i ofalu am bobl o dan anfantais. Soniodd fel yr aed ati i ddarparu ystafelloedd i bobl, rhai ohonynt yn ddall ble roeddynt, ymhen amser yn llwyddo i ofalu amdanynt eu hunain, gyda ond ychydig iawn o ofal ychwanegol. Wrth wrando ar ei sgwrs gorfodid rhywun i sylweddoli cymaint yw'r gofal sydd ei angen ar rai pobl o fewn ein cymdeithas ynghyd a'r gwaith called a wneir gan eu gofalwyr.

Dathlu Penblwydd

Dathlodd un o gyn athrawesau Ysgol Rhiwlas ei phenblwydd yn 90 oed ar Dachwedd 4ydd. Bu Miss Dilys Jones o Fangor yn athrawes yn yr Ysgol am nifer o flynyddoedd a bu cenedlaethau o blant yr ardal o dan ei gofal. Bydd pob un yn ei chofio gyda hoffter ac anwylddeb ac yn barod i gydnabod eu dyled iddi am roi arweiniad mor sicr iddynt ar ddechrau eu gyrfa. Anfonwn ddymuniadau cywir ati o Rhiwlas, nid yn unig ar ran y rhai a fu yn ddigon ffodus i gael ei dysgu ganddi, ond ar ran eu rhieni yn ogystal. Diolch are u rhan i gyd. Nid yw ei gwasanaeth yn angof yn y pentref.

Priodi

Llongyfarchiadau a phob dymuniadau da i Lleuwen Steffan ar ei phriodas gyda Lan Tongi yn Llydaw ar Hydref 13eg. Dymunwn iechyd ac hapusrwydd iddynt fel teulu heb anghofio Caradog eu mab bychan chwe mis oed.

Er fod Lleuwen wedi sefydlu ei chartref yn Llydaw, y newydd da ydyw, y bydd yn parhau i ddychwelyd i Gymru i ganu o bryd i'w gilydd.

BARA CAWS YN GALW AM DREFNWYR

O'i gartref yng Nghaernarfon mae Bara Caws wedi bod yn cynnig cynrychiadau wedi eu cynllunio a'u perfformio yn arbennig i gynulleidfaeodd Cymraeg yn eu cymunedau ers dros ddeg mlynedd ar hugain.

'Rydym yn teithio Cymru gyfan yn rheolaidd, yn perfformio mewn neuaddau pentref, canolfannau cymdeithasol, theatrau, ysgolion a chlybiau.

Cynigir y perfformiadau am ffi resymol i unrhyw gymdeithas neu fudiad sydd yn dymuno gwahodd Bara Caws i'w hardal. Disgwylir i'r mudiadau sicrhau canolfan addas, dosbarthu tocynnau a hybu'r cynhyrchiad yn lleol gyda phosteri a deunydd marchnata a baratoir gan y cwmni. Mae unrhyw elw ddau o'r nosweithiau yn mynd yn syth i achosion da lleol. Tros y blynyddoedd mae Bara Caws wedi creu rhwydwaith cryf o drefnwyr dros Gymru i gyd a phob amser yn awyddus i glywed gan unigolion sy'n fodlon mentro.

Teimlwn fod y system hon o drefnu yn gweithio cystal gan fod y trefnwyr lleol gymaint mwy cyfarwydd â'u milltir sgwâr, ei disgwyliadau a'i chynulleidfaeodd. O ganlyniad mae trefnydd da yn gweithredu fel doler gyswllt rhwng Bara Caws a'r gymuned, gan sicrhau cynulleidfaeodd cryfach a nosweithiau llwyddiannus.

Felly, os oes gennych chi awydd ymuno â'n rhwydwaith werthfawr o drefnwyr, ac am wahodd Bara Caws i berfformio yn eich cymuned chi, cysylltwch rhag blaen â Linda Brown ar linda@theatrabaracaws.com neu drwy ffonio 01286-676335.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Gwilym Rees Griffith

Ymhlith sawl ymateb diddorol a gefais yn dilyn y ddwy ysgrif a gyhoeddais am dîm pêl-droed adnabyddus y Penrhyn Quarry yn y 1940au, roeddwn yn falch o gael manylion gan weddw Gwilym Rees Griffith, Joan, sy'n ychwanegu at yr hyn at yr hyn a ysgrifennais o'r blaen.

Ganed Gwilym ar Awst 10, 1924, yn Stryd John, Bethesda, yn fab i Jack a Ceridwen Griffith ac yn frawd i Glyn, Ffrancon ac Eifion. Treuliodd ei brentisiaeth yn Chwarel y Penrhyn cyn gadael i fynd i dreulio ei oes waith wedyn gyda Chwmni Ferranti ym Mangor. Wedi dod o'r Llynges ar ddiwedd y Rhyfel, cyfarfu Gwilym â Joan yn y White Lion ym Mangor (lle'r oedd hi'n byw) ac wedi i'w perthynas ddatblygu'n garwriaeth, a Joan bellach wedi symud i Gaernarfon, priodwyd y ddau yn Eglwys Llanbeblig.

Chwaraeai Gwilym (y gwelsoch ei lun yn f'ysgrif gyntaf ar dîm y Penrhyn Quarry) ar ochr dde'r amddiffynfa yn ystod y blynyddoedd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Hyd at ganol mis Mawrth yn ystod tymor 1947-48, meddai Joan, doedd Penrhyn Quarry ond wedi colli un gêm ac mewn 22 o gemau yn y Welsh League, roedd y tîm hwn a amaturiaid wedi sgorio 79 o goliau. Dylid cofio bod sawl un o'r chwaraewyr wedi bod yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog yn ystod y Rhyfel. Mae Joan yn dal i edrych gyda balchder hyd heddiw ar y pedair medal a enillodd Gwilym. Dyma lun ohonyn nhw ynghyd â'r manylion sydd wedi'u sgythru ar eu cefnau:



O'r chwith i'r dde, y rhes uchaf wedyn y rhes isaf:

1. Challenge Cup Finalists, 1948-49
2. Penrhyn Quarry F.C., Champions. League 1, Season 1947-49
3. Alves Cup Finalists, 1949-50
4. Bethesda Athletic, Amateur Cup Finalists, 1950-51.

Yn dilyn ei gyfnod gyda'r Penrhyn Quarry, ac yna Bethesda Athletic, bu Gwilym yn chwarae i dimau eraill yn y cyffiniau (a thîm Caernarfon yn eu plith). Dyma'r adeg pan dynnwyd sylw un o sgowtiaid Tottenham Hotspur ato ac wedi iddo gymryd rhan mewn treialon gyda'r tîm hwnnw, cafodd wahoddiad i ymuno â nhw. Ond gwrthod wnaeth Gwilym a pharhau i chwarae gydag amaturiaid Gogledd Cymru am flynyddoedd wedyn.

Wedi cyfnod o waeledd, bu farw Gwilym ar Orffennaf 17, 2000, gan adael ei briod, Joan, ei ferch, Sheryll, a'i fab, Stephen, ac fe'i claddwyd ym Mynwent Coetmor.

Cynllun Coflechi Rhai o Enwogion Llên Dyffryn Ogwen

Yn rhifynnau Rhagfyr 2009 ac Ionawr 2010, Llais Ogwan, cyhoeddwyd dwy erthygl o waith Dr J. Elwyn Hughes yn rhestru oddeutu trigain o bobl adnabyddus ac enwog a oedd naill ai wedi eu geni yn Nyffryn Ogwen neu wedi ymgartrefu yno o fannau eraill. Ni chynhwysodd enwau enwogion heddiw – rhai sy'n dal yn fyw. Nododd mai dim ond ar dri chartref yn Nyffryn Ogwen yr oedd coflechi wedi'u gosod i goffâu rhyw enwogyn neu'i gilydd a bod hynny'n achos siom a syndod mawr.

Penderfynodd alw ychydig o gyfeillion ynghyd ar fyrder i drafod y priodoldeb ac, yn wir, yr angen i osod coflechi ar dai rhai o enwogion llên y Dyffryn: Y Cynghorydd Neville Hughes, Dr Dafydd Roberts (Amgueddfa Lechi Llanberis), Y Cynghorydd Arthur Rowlands a'r Prifardd Ieuan Wyn.

Yn y cyfarfod cyntaf (Mawrth 23, 2010), defnyddiwyd y rhestr a fu yn Llais Ogwan yn sail i drafodaeth. Teimlwyd y gellid cyflwyno dadleuon cryfion dros gydnabod hawl nifer sylweddol o'r trigain o enwogion a restrwyd i fod â choflech ar eu cartrefi yn y Dyffryn. Ond, fel man cychwyn, penderfynwyd ar ddau faen prawf penodol ar gyfer dethol yn fwriadus o blith y rhestr hir: enwogrwyd cenedlaethol a chyfraniad i fyfwr llên. I ddechrau, dewiswyd rhai a aned yn Nyffryn Ogwen ac yna rhai a aned o'r tu allan i'r ardal ond a fu'n byw yn y Dyffryn; yn y pen draw, penderfynwyd ar y pedwar ar ddeg a ganlyn (ynghyd â'r geiriad arfaethedig ar bob coflech):

EDWARD TEGLA DAVIES

1880-1967. Llenor. Gweinidog Capel Shiloh 1911-14, '19-22, '44-46
Cartref: Pant Teg, Tregarth, Bethesda

EMRYS EDWARDS

1914-96. Prifardd, Ficer, Athro
Man Geni: 15 Stryd y Mynydd,
Caellwyngrydd, Rachub, Bethesda

SYR IDRIS FOSTER

1911-84. Athro Celtaeg Rhydychen
Man Geni: Siop Foster, Carneddi. Cartref:
Cae'r Onnen, Cilfodan, Carneddi, Bethesda

IFOR BOWEN GRIFFITH

1907-90. Llenor a Darlledwr
Man Geni: Ty'n Clawdd, Tregarth, Bethesda

WILLIAM GRIFFITH, HEN-BARC

1879-1946. Bardd.
Cartref: 7 Hen-barc, Bethesda

RHYS J. HUWS

1862-1917. Gweinidog Capel Bethesda 1905-12. Sefydlydd Eisteddfod y Plant.
Cartref: 17 Rhes Ogwen, Bethesda

BEN JONES (Ben Fardd)

1891-1971. Bardd
Man Geni: 89 Ffordd Carneddi, Bethesda

R. WILLIAMS PARRY

1884-1956. Bardd.
Cartref, 3 Stad Coetmor, Bethesda

Gwnaethpwyd yr holl waith trefnu'n wirfoddol ac, felly'n ddigost. Cynhyrchwyd y coflechi o lechfaen glas Chwarel y Penrhyn ac fe'u cafwyd yn rhad ac am ddim gan y Chwarel. Ysgythrwyd arnynt, a'u gosod, gan Robin Hughes a'i Fab, Llangefni, Ynys Môn. Bydd yr holl draul oddeutu £1000 ond erbyn hyn, drwy roddion ac ati, llwyddwyd i godi bron y cyfan o'r swm hwn.

Bydd llyfryn, dan y teitl 'Rhai o Enwogion Llên Dyffryn Ogwen', dan olygyddiaeth Dr J. Elwyn Hughes, yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos, yn cynnwys llun pob un o'r enwogion, bywgraffiad byr, a llun yr eiddo y gosodwyd y goflech arno. Ceir rhagor o fanylion maes o law am y cyfarfod a drefnir i lansio'r llyfryn ac am y daith fws o gwmpas yr ardal i weld y coflechi yn eu lle (pan geir cyfle hefyd i weld rhai o lefydd diddorol eraill yn y Dyffryn). Derbyniwyd nawdd o Gronfa Datblygu Gwirfoddol Cist Gwynedd i gyhoeddi'r llyfryn ac i drefnu'r daith fws o amgylch yr ardal (yn ogystal ag i roi cyhoeddusrwydd teilwng ac angenrheidiol i'r fenter yn gyffredinol).

Gobeithir y bydd yr holl gynllun yn cael ei drosglwyddo o ddwylo'r gwirfoddolwyr ac yn cael ei berchenogi gan Gyngor Cymuned Bethesda a Chyngor Cymuned Llandygái er mwyn sicrhau ei barhad a'i gynhaliath. Maes o law, mae'n debygol yr eir ati i ehangu'r gwaith a chynllunio rhagor o goflechi er cof am enwogion eraill y fro ac nid oes amheuaeth na fydd y gwirfoddolwyr presennol, ynghyd ag eraill a allai fod â diddordeb, yn fodlon rhoi eu gwasanaeth a'u harbenigedd i gynorthwyo yn hynny o beth.

WILLIAM JOHN PARRY

1842-1927. Awdur ac Ysgrifennydd cyntaf Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru.
Cartref: 52 Stryd Fawr, Bethesda.

CARADOG PRICHARD

1904-80. Bardd, nofelydd, newyddiadurwr.
Man Geni: Llwyn Onn, 24 Pen-y-bryn,
Bethesda

ERNEST ROBERTS

1898-1988. Llenor a Hanesydd Lleol.
Man Geni: Ogwen Stores, 71 Stryd Fawr,
Bethesda

BENJAMIN THOMAS

Ty'n Tŵr ac America. 1838-1920. Bardd ac awdur 'Moliannwn'.
Man Geni: Original Crown, 53 Stryd Fawr,
Bethesda

J. O. WILLIAMS

1892-1973. Llenor.
Cydawdur Llyfr Mawr y Plant.
Man Geni: Wenallt. 23 Pen-y-bryn, Bethesda

JENNIE THOMAS

1898-1979. Addysgwraig.
Cydawdur Llyfr Mawr y Plant.
Cartref: Rhos y Garreg, Ffordd Bangor,
Bethesda

Y LLYFRGELL

Llongyfarchiadau mawr i Elin Lewis, 7 oed, o Ffordd Ffrydlas, ar ennill y wobr gyntaf yng Nghystadleuaeth Lliwio Blwyddyn 2 ac iau yn ystod yr haf. Cystadleuaeth i holl Lyfrgelloedd Gwynedd oedd hon, ac felly mae Elin wedi gwneud yn arbennig o dda.



Da iawn ti, Elin !

Nyth y Gân

Y Tramp

Diarth ei draed wrth y drws; mor lleuog,
Mor garpiog ei gorpws;
Un tlawd ddôl â rhosyn tlws
Â'i boen i geisio bonws.

Yr Eog yn Claddu

Draw'n y dŵr, hon a duriodd yn y gro'n
Ôl ei greddf ple llwyddodd
I ddodi'r wyau ddodwodd
Yn y ffrwd a'i gwir gyffrôdd.

Geiriau

Diolch wnawn i William Morgan
Am ei ddysg ac am ei ddawn;
Achub iaith hen werin Cymru
Iddo ef oedd bwysig iawn.

Hau gwybodaeth fu awduron
Yma i ni ers amser maith,
A boddhad a gawn o fedd
Y trysorau sy'n eu gwaith.

Paent yw geiriau yr arlunydd
Yno'i greu y lliw a'r llun
Sydd yn gallu ein gwefreiddio
A dweud llawer iawn wrth ddydd.

Yngan gair ni all anifail,
Cyfathrebu maent drwy sŵn,
Ond gall bugail drin diadell
Trwy roi geiriau 'nghlustiau'r cŵn.

Agor cwysi mae barddoniaeth
Gyda cherddi caeth neu rydd
A rhoi i ni yr un pleser
A gaiff ffermwr efo'i wÿdd.

Hynod swnllyd yw'r byd heddiw,
Byr yw'r sgwrs mewn llawer man,
Ac mae'r wresog hen gymdeithas
O dan gerrig oer y llan.

Dafydd Morris

O'r Cyngor

CYNGOR CYMUNED LLANDEGAI

Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref yng Nghanolfan Tregarth gyda'r Cynghorydd Rhys M. Llwyd yn y gadair.

Mae'r Cyngor mewn cysylltiad â Chartrefi Cymunedol Gwynedd ynglŷn â chael rhagor o ddarpariaeth parcio o gwmpas Ystad Bro Syr Ifor.

Cysylltwyd â'r cyngor Sir i ddwyn sylw at lwybrau yn wlyb a gwrychoedd angen eu torri. Cafodd cryn dipyn o'r gwaith ei wneud eisoes.

Byddir yn dwyn sylw at broblem gyda dŵr ar y ffyrdd, muriau i'w hatgyweirio a choed wedi gor-dyfu.

Penderfynwyd cysylltu â'r Gwasanaeth Tân ac Achub i geisio cael peiriant addas gogyfer â ffyrdd culion yr ardal. Gellid ei leoli'n gyfleus yng ngorsaf y gwasanaeth ym Mangor. Gwneir ymholiadau hefyd ynglŷn â hydrant.

Mae trefniadau ar y gweill i atgyweirio llochesi bws ar Lwybr Main, gerllaw Arafon a hefyd gerllaw Bradite. Gobeithir cwblhau'r gwaith cyn y Nadolig.

CYNGOR CYMUNED BETHESDA

Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru

Mae cynigion diwygiedig y Comisiwn yn rhoi ystyriaeth i'r ymatebion a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd yn Ionawr 2012. Mae'r cynigion hefyd yn parhau i fodloni gofynion y Ddeddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011, yn cynnwys lleihad yn y nifer o etholaethau yng Nghymru o 40 i 30 a nifer fwy cyfartal o etholwyr ym mhob etholaeth (rhwng 72,810 a 80,473). Mae adroddiad cynigion diwygiedig y Comisiwn ar gael i'w lawr lwytho o www.comffin-cymru.gov.uk. Mae'r cyfle i bawb sydd ynghlwm allu cyflwyno sylwadau i'r Comisiwn, p'un a ydynt yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynigion diwygiedig, yn bwysig iawn. Gallwch roi sylw ar y cynigion diwygiedig yn ystod cyfnod ymgynghori o wyth wythnos o 24 Hydref i 18 Rhagfyr 2012.

Ymgyrch Cadwch Gymru'n Daclus

Maent yn ymgyrchu drwy ddeiseb at Ysgrifennydd Yr Amgylchedd, llywodraeth Cymru i gynnwys mesurau ataliol ym Mil yr Amgylchedd sydd i ddod ar ryddhau balwnau a llusernau awyr.

Grid Cenedlaethol

Mae'n fwiad gan y Grid Cenedlaethol i osod seilwaith ychwanegol yn ardaloedd Ynys Môn a Gwynedd. Mae mwy o wybodaeth am y cynlluniau ar gael yn www.northwalesconnection.com ac mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yn yr ardal.

Gorchymyn Cefnffordd Yr A5 (Bethesda, Gwynedd) (Gwahardd A Chyfyngu Ar Aros)

Yn unol ag adran 6(1)(c) o Reoliadau Gorchymyn Traffig (Gweithdrefnau) (Cymru a Lloegr) 1990 yr Ysgrifennydd Gwladol, anfonwyd copi o'r Gorchymyn drafft, Cynllun, y Datganiad o Resymau a'r Hysbysiad Cyhoeddus i'r Cyngor mewn perthynas â'r cynnig uchod. Cadarnhawyd fod is-bwyllgor o aelodau Ward Ogwen a'r aelod Dros Gyngor Gwynedd wedi cael ymweliad safle i drafod yr hyn sy'n fwriedig. Gyrrwyd sylwadau ymlaen i Lywodraeth Cymru.

Cyfleoedd Cyffrous i Ganol Trefi Gwynedd

Llythyr gan yr Uwch Swyddog Adfywio Strategol (dros dro) Cyngor Gwynedd yn amlinellu cynllun Bywiocau a Gwella Delwedd Canol Trefi. Mae Partneriaeth Dyffryn Ogwen eisoes wedi dechrau gweithredu ar y fenter.

Gorchymynion Rheoli Cŵn –

Ymgyngoriad Cyhoeddus gan Gyngor Gwynedd
Llythyr yn cynnwys y ddogfen ymgynghori, sampl o holiadur a chopïau o'r daflen cyhoedduswydd. Ceir manylion a chopïau pellach yn: www.gwynedd.gov.uk/gorchymynionrheolicwn.

Newyddlen diogelwch am y Gaeaf

Cafwyd e-bost gan Brian Jones Rheolwr Cynllunio am Argyfwng. Mae cynrychiolydd Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd wedi gofyn

iddo ddsbarthu i'r Cynghorau Cymunedol yng Ngwynedd y newyddlen atodol parthed paratoi am y gaeaf, gyda'r gobaith y byd yn cael ei arddangos mewn man(nau) amlwg.

Cystadleuaeth 'Ffenestr Siop Gorau'r Nadolig'2012- Penderfynwyd cynnal y gystadleuaeth eto eleni. Dylid rhoi digon o gyhoedduswydd i'r gystadleuaeth. Y flwyddyn hon y bydd tair gwobr sef £50 i'r cyntaf, £30 i'r ail a £20 i'r trydydd safle. Bydd hefyd £10 i'r rhai a feimiedir eu bod wedi gwneud ymdrech arbennig.

CYNGOR PENTIR

Yn eu cyfarfod ar Hydref 11, derbyniodd Mr. Alun Ffred Jones AC wahoddiad y Cyngor i drafod gyda'r Cynghorwyr ddatblygiad arfaethedig gan Gwmni Redrow ym Mhenrhosgarnedd o stad o dai. Eglurwyd i'r AC fod trigolion y stadau presennol yn bryderus y byddai'r stad newydd yn defnyddio'r ffordd bresennol ac felly yn ychwanegu'n ddirfawr at y traffig, sydd eisoes yn drwm iawn. Cynigiodd Mr. Alun Ffred Jones gysylltu gyda swyddogion perthnasol yn Llywodraeth Cymru i edrych ar y posibilrwydd o gael ffordd newydd i Ysbyty Gwynedd o Ffordd Caernarfon, er mwyn lleihau y traffig i mewn i Benrhosgarnedd o allt y Faenol. Derbyniwyd y cynnig yma gan y Cynghorwyr a diolchwyd i'r Aelod Cynulliad am ei gymorth.

Nododd y Cynghorydd Sir, Mr. John Wyn Williams iddo fynychu cyfarfod gyda'r Grid Cenedlaethol yn ddiweddar, ynglŷn â'r bwriad i uwchraddio'r gwifrau trydan ar draws afon Menai er mwyn dygymod â'r cynnydd yn y trydan a gynhyrchir o'r ffermydd gwynt newydd ac o Wylfa B yn y dyfodol. Un cynnig oedd cael mwy o beilonau newydd yn ardal Pentir; ond nododd y byddai Cyngor Gwynedd yn pwysu am gael gwifrau tan ddaearol yn lle hynny.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen	Plaid Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen
<p>Ar ddechrau mis Hydref aeth rhai o aelodau'r gangen i gyfarfod o bwyllgor gwaith Plaid Lafur Arfon i wrando ar oraith gan Tal Michael, yr ymgeisydd Llafur yn etholiad comisiynydd yr heddlu yng nghanol mis Tachwedd. Da oedd clywed bod cangen Dyffryn Ogwen wedi bod yn brysurach na'r canghennau eraill yn ddiweddar.</p> <p>Tua diwedd y mis cynhaliwyd y cyfarfod misol arferol gydag adroddiadau am Cyngor Gwynedd (e.e. yr anhawster ariannol sy'n wynebu'r cyngor), Cyngor Bethesda (e.e. yr ymgynghoriad am faw ci) a Chyngor Llanllechid (e.e. ymgynghoriad y comisiwn Cefn Gwlad) – yn ogystal ag adroddiadau am weithgarwch y Plaid Lafur a'i chynrychiolwyr ar wahanol lefel o lywodraeth e.e. bydd gwersi nofio, cardiau bws, presgripsiynau, llefrith a brewcwast ysgol i gyd yn parhau'n ddi-dal yng Nghymru.</p> <p>Dechreuwyd gwneud paratoadau ar gyfer Ffair y Nadolig gyda Sion Corn yn Neuadd Ogwen ar fore Rhagfyr 1af.</p> <p>Cynhelir y cyfarfod nesaf yng Nghanolfan Cefnfaes ar Nos Fercher Tachwedd yr 28ain am 7.30 p.m. ond mi fydd cyfarfod yn mis Rhagfyr.</p>	<p>Cynhaliwyd ein cyfarfod misol nos Fawrth Hydref 30 yng Nghanolfan Cefnfaes.</p> <p>Ar Hydref 5ed cynhaliwyd cymhorthfa yn Rachub gan Hywel Williams A.S. a bu'n amser prysur iawn iddo. Mae'n dda gweld bod pobl yn barod i drafod gyda'r Aelod Seneddol lleol. Diolchwyd i bawb fu'n cynorthwyo.</p> <p>Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Dafydd Meurig yn dweud bod defnydd garw ar y lôn gefn o Aber i Llanllechid yn enwedig os bu digwyddiad yn arafu'r traffig ar yr A55. Mae wedi cyfarfod gyda swyddog Gwynedd ac asiantaeth y cefnffyrdd er mwyn ceisio datrys y broblem.</p> <p>Yn dilyn y bygythiad i'r gwasanaeth bysiau, 'roedd y Cynghorydd Ann Williams yn falch iawn o allu dweud y bydd y bysiau yn parhau i fynd i'r Gerlan ar ôl saith o'r gloch y nos.</p> <p>Gwnaed y trefniadau terfynol ar gyfer yr Ocsiwn yn y Clwb Rygbi ar 9 Tachwedd. Cawn yr hanes yn y rhifyn nesaf.</p> <p>Yr ydym hefyd yn brysur baratoi i ddathlu dydd Santes Dwynwen ar Ionawr 25ain, bydd mwy o wybodaeth i ddilyn.</p>

Croesair Tachwedd 2012

AR DRAWS


1. Blodyn y Cofio. (4)
3. Llyfr a chelficyn gwaith ein 'prif nofelydd'. (6)
8. Mae'n debyg fod sawl un o'r rhain yn ystod 3 I Lawr. Ond nid i gadw'n lân. (7)
9. Efallai mai'n siol yr hen wraig fach o Gydweli y maent. (5)
10. Methu cael digon ac awydd cryf am fwy. (5)
11. Rhai cochion y gorllewin gwyllt. (7)
12. Deuai arnat farn erystalwm am fynychu'r lle hwn yn rhy aml. (6)
14. Dod â'r ceiniogau i'r elusen. (6)
18. Cacen yn felys ar eich plat? Gwyliwch rhag i'r creadur bach yma fod yn bigog am na chaiff damaid. (7)
20. Mae ei lliwiau'n hudolus nes fy swyno bob tro y gwelaf hi. (5)
22. Cyflwr yr unben, a'r werin wedi ei drechu a'i orchfygu. (5)
23. Pan af i lain o gae gwelaf un yn reit aml. (7)
24. Mae'n swnio fel pe bai rhan o 18 Ar Drows yn ffraco a chweryla! (6)
25. A fydd mwnci yn canu am y rhain? (4)
3. Bethesda a'r cylch 1900 – 1903. (6)
4. Bwyd cwningen, medd rhai (5)
5. Pobl y morthwyl a'r cryman gynt. (7)
6. Hywel Gwynfryn efallai, neu Gwyn Hughes Jones. (6)
7. Amser dyn y grempog. (4)
13. Dichon y cred i fyw'n dda ag yntau wedi ei fagu yno ger yr eglwys. (7)
15. 20 Ar Drows oedd hyn i w'r yr arch a'r dilyw. (6)
16. Gwelir rhain ar y Sul gyda phwdin ynddynt. (7)
17. Pawb yn meddwl yr un fath (6)
18. Dacw fo'r corff sy'n gwarchod hen gestyll. (4)
19. Mae naw yn ddeg ----- un. (5)
21. Cambihafia, ac mi fyddi "o ----- dy well"! (5)

ATEBION CROESAIR HYDREF 2012

- AR DRAWS** 1. Llusgo; 4. Senedd; 10. Llesmair; 11. Gwella; 12. Enllib; 13. Cydfynd; 15. Abad;
17. Trechu; 19. Y paun; 22. Wawr; 25. Bustachu; 27. Ysbio; 29. Salwch; 30. Ymestyn; 31. Addasu; 32. Stroc.
- I LAWYR** 2. Unsill; 3. Gwas bach; 5. Ergyd; 6. Efelychu; 7. Allwedd; 8. Crwca; 9. Bathdy; 14. Ydyw;
16. Buwch; 18. Raselydd; 20. Pryddest; 21. E-bost; 23. Aur yw; 24. Honno; 26. Awchus; 28. Betio.

I LAWYR

1. Mae Siân, Pat a llawer o blant eraill yn cymryd rhan yn y cynhyrchiad yma. (7)
2. Hen fwgan o greadur annifyr. (5)



Rhyw fanion anffodus oedd y camgymeriadau y tro hwn, e.e. cafwyd 'pryfest' yn lle 'pryddest', ac enw gwasg merched Cymru yw 'Honno', nid 'Honna' fel a gafwyd gan un ymgeisydd.

Y cyntaf o'r het am y wobwr oedd ymgais Emrys Griffiths, 5 Llwyn, Rhosgadfan, Caernarfon LL54 7HN.

Llongyfarchiadau mawr i chi. Da iawn hefyd y gweddill ohonoch a anfonodd atebion hollol gywir, sef

Ann Ifans, Penisarwaun; Doris Shaw, Bangor; Heulwen Evans, Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Gareth W. Jones, Bow Street; Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Tregarth; E. E. Roberts, Llanberis; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid.

Atebion erbyn dydd Mercher 28 Tachwedd i 'Croesair Tachwedd', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

Y Gymdeithas Hanes



Y Dr. Huw Owen a agorodd dymor newydd y Gymdeithas ar nos Lun, 8 Hydref, yn Festri Jerusalem. Cafwyd darlith ddiddorol ganddo, gyda chymorth lluniau, ar y testun "Capel Jerusalem a Chapeli Cymru". Fel y gwelir o'r llun roedd yr aelodau yn dangos awydd am ragor o drafodaeth ar ddiwedd y noson.

CÔR Y GOGLEDD (CÔR RYGBI GOGLEDD CYMRU) CYFARWYDDWR CERDD MR GERAINT ROBERTS

Yn dilyn blwyddyn lwyddiannus, dyma dymor newydd yn dechrau i'r Côr. Bydd yr ymarferion bob nos Fercher am 7:30 y.h yn Nghlwb Rygbi Llandygai. Mae 72 o aelodau yn y Côr bellach a braf gweld nifer y dynion yn cynyddu. Bydd y Côr yn bump oed ym mis Gorffennaf 2013 ac mae'n siwr y bydd dathliad mawr.

Yn dilyn ymweliad Cydlynnydd y Côr, Mr Alwyn Bevan, âThy Ddewi i bwyllgor Cofeb Cymry yn Fflandrys, mae'n swyddogol nawr mai Côr y Gogledd fydd Côr yr ymgyrch ac y byddwn yn mynd i Langemark Fflandrys Hydref 2014 i seremoni dadorchuddio'r gofeb. Bu'r Côr yn Fflandrys ym mis Hydref 2012 yn neuadd y dref Langermark ar gyfer seremoni lansio'r ymgyrch, ac yn dilyn cyngerdd yn yr hwyr yn Eglwys Langermark.

Ar Ddydd Sadwrn Hydref 6ed 2012 ar wahoddiad Gymdeithas Gymraeg Deeping St James Peterborough aeth 58 o aelodau o'r Côr i ganu i Briordy Hynafol Deeping St James. Roedd yn noson dda a chafwyd croeso ardderchog. Braf oedd clywed cymaint yn siarad Cymraeg yn y gynulleidfa. Arhoswyd nos Sadwrn yn Corby a threulio dwyawr ar y ffordd adref ddydd Sul yn yr Amwythig.

Bydd ein cyngerdd Nadolig eleni yn Eglwys y Felinheli nos Fercher Rhagfyr 12fed am 7 o'r gloch. Fel arfer cawn ein cinio blynyddol i ddathlu'r Nadolig yn y Clwb yn Llandegai - cinio gwerth chweil gan Sandra.

Mae croeso i aelodau newydd bob amser ac o bob oedran - byddwch yn siwr o fwynhau a chael hwyl, sbort a sbri, heb anghofio'r canu!

Manylion cyswylt y Côr yw 01248 600678 neu ebost cor-rygbi@bevreg.co.uk

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Cyfarfod Blynyddol Llais Ogwan

yng Nghanolfan Cefnfaes
Nos Fercher
21 Tachwedd
am 7.30 yr hwyr
Croeso Cynnes i Bawb

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ffair Nadolig

gyda Siôn Corn

Neuadd Ogwen
Bore Sadwrn, 1 Rhagfyr
10.00 - 12.00

Mynediad £1.00
(50c i bobl ddigyflog)
Stondinau, Raffl, Panad a Mins Pei

Cynhelir
**GWASANAETH NADOLIG
CYMUNEDOL
YNG NGHAPEL
JERUSALEM, BETHESDA
NOS SUL, 23 RHAGFYR,
2012**

am 7 o'r gloch

Dewch i ddathlu Gŵyl y Geni

NEUADD OGWEN BETHESDA GYRFA CHWIST

27 Tachwedd
11 Rhagfyr

am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

NEUADD OGWEN, BETHESDA

BOREAU COFFI



17 Tach. NSPCC
24 Tach. Llais Ogwan
01 Rhag: Plaid Lafur
08 Rhag: Cylch Meithrin Cefnfaes
15 Rhag. Eglwys Sant Tegai
22 Rhag: Cŵn Tywys i'r Deillion

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Nos Lun 10 Rhagfyr
yn Festri Capel Jerusalem,
Bethesda

Maldwyn Thomas
"Cadw'r Chwedlau'n Fyw"

£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau.

APÊL ELEANOR JONES
TUAG AT GAEL OFFER
I WARD ALAW.

TAITH GERDDED NODDEDIG

(o Llyn Ogwen i Fethesda)
Pnawn Sul, 9 Rhagfyr
Am 1 o'r gloch.

Os am gyfrannu neu gerdded cysylltwch ag

Ann (601583); Linda (601526)
Neu Joe (601902)

HEFYD

BINGO

Yn y Clwb Criced a Bowlio
Nos Fercher, 12 Rhagfyr
Am 7 o'r gloch.

CYLCH MEITHRIN GERLAN

FFAIR NADOLIG

YN Y CABAN, GERLAN

24 TACHWEDD

11.00 y bore tan 1.00 y prynhawn

£1.00 (gan gynnwys mins pei)

Plant am ddim

Siôn Corn: £2.00 y plentyn

Eglwys y Santes Fair, Tregarth

Te Nadolig

yng Nghanolfan Tregarth

27 Tachwedd 2012
2.00 - 4.00

Tocyn: £1.50 yn cynnwys lluniaeth

THEATR BARA CAWS

yn cyflwyno

Llanast!

Cyfieithiad Gareth Miles o 'Le Dieu du Carnage'
gan Yasmina Reza

2 fam, 2 dad, 2 fab × wisgi, tiwlips a ffôn = Llanast!

Dau bâr o rieni diwylliedig yn cwrrd i drafod eu plant anystywallt. Cyn hir mae chwarae'r oedolion yn troi'n chwerw ac mae'n llanast go iawn yn y llofa! Drama ddoniol a deifiol.

Gyda: Emlyn Gomer, Rebecca Harries, Lauren Phillips a Llion Williams.

Canllaw oed: 14+

Rhagfyr 1

Theatr Bara Caws, Uned A1, Stad Ddiwydiannol Cibyn,
Gwybodaeth tocynnau: 01286676335/01286675869

Côr Cymysg Dyffryn Conwy yn perfformio

'MESSIAH'

(G F Handel)

yng Nghapel Salem, Caernarfon

Nos Wener 14 Rhagfyr 2012
am 7.30 yr hwyr

Unawdwr

Kate Griffiths (Soprano)
Philippa Thompson (Contralto)
Bryn Roberts (Tenor)
Trystan Lewis (Bas)
Organydd : Graham Eccles
Timpani : Dewi Ellis Jones
Trwmped : Gwyn Owen
Arweinydd : Trystan Lewis

Tocyn - £10.00
Ffôn: 01492 640703)

Taith o Amgylch Mynwentydd Dyffryn Ogwengan Andre Lomozik
Rhan 4**EGLWYS GOFFA DONALD ROBERTSON
(EGLWYS COETMOR)**

Yn y papur dyddiedig Ionawr 13 1911 cawn adroddiad 'Memorial Chapel at Coetmor' yn sôn fod yr eglwys sydd yn cael ei chodi er cof am Donald Robertson gan y teulu, yn dod yn ei blaen ac yn agosáu at ei darfod.

Yna ar Ebrill 28 1911 cawn hanes gwasanaeth cysegru'r eglwys gan Esgob Bangor. Rhoddwyd y tir fel claddfa gan yr Arglwydd Penrhyn rai blynyddoedd yn gynt, ond nid oedd arian ar y pryd i adeiladu'r eglwys. Felly ar ôl marwolaeth Charles Donald Robertson penderfynodd ei deulu dalu am y gost o adeiladu'r eglwys er cof amdano gyda rhoddion eraill gan ffrindiau iddo.

Rhoddwyd llyfrau gwasanaeth gan Sir Richmond Richie (Of the India Office) a'i wraig, allor a chadeiriau gan aelodau o'r Alpine Club, lliain i'r allor gan Mrs Jones Ficerdy Glanogwen, a chloch wedi ei gwneud yn Nulyn gan bobl ifainc Eglwys Glanogwen. Y pensaer oedd Messrs. Orphen and Dickerson o Ddulyn, ffrindiau personol i Donald Robertson. Messrs. Richard a Harold Hughes Bethesda oedd yr adeiladwyr.

Yma hefyd mae bedd yr Athro Syr Idris Foster



Ef oedd y mab hynaf o ddau i Harold Llywelyn ac Anna Jane Foster (Roberts). Cafodd ei addysg yn ysgol y Sir Bethesda a Phrifysgol Gogledd Cymru Bangor, (Prifysgol Bangor erbyn heddiw) lle graddiodd gyda BA anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Cymraeg gyda Lladin yn bwnc atodol ym 1932, ac MA ym 1935. Ym 1936 penodwyd ef yn bennaeth adran

Gelteg Prifysgol Lerpwl, lle'r arhosodd am un flynedd ar ddeg, ar wahân i dair blynedd a hanner a dreuliodd yn Nghaergrawnt (1942-1945) yn ystod yr ail ryfel byd fel aelod o wasanaeth cudd-ymchwil y Llynges Frenhinol, lle y meistrolodd Serbo-Croateg.

Ym 1947 fe'i etholwyd yn Athro Celteg Prifysgol Rhydychen, lle'r arhosodd hyd nes iddo ymddeol ym 1978 a dychwelyd i Fethesda. Yr oedd Syr Idris Foster yn ysgolhaig Celtaidd gyda meistrolaeth driw ar y prif ieithoedd Celtaidd a'u llenyddiaeth, ac 'roedd ganddo ddiddordeb brwd hefyd yn hanes ac archaeoleg y gwledydd Celtaidd. Bu yn ei dro yn Gadeirydd Bwrdd Ieithoedd Modern a Bwrdd Anthropoleg a Daeryddiaeth Prifysgol Rhydychen.

Ar un adeg 'roedd pedwar o'r pum Athro Cymraeg ym Mhrifysgol Cymru yn gyn-ddisgyblion iddo.

I'w barhau.....

Côr Meibion y Penrhyn**Rhaglen Lawn**

Mae'r dyddiau hyn yn rhai cyffrous a diddorol yn hanes y côr gyda nifer o alwadau am ein gwasanaeth. Ar ôl cyngherddau llwyddiannus yn Rhuthun ac yn Llandudno daeth tymor yr haf i ben ond nid oes ball ar brysurdeb y côr gan bod galw arnom mewn cyngerdd i godi arian at ymchwil i ganser yng Nghadeiriau Bangor ar Dachwedd 17, noson yn unig ar ôl bod yn cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Mae cefnogi a chynnal digwyddiadau lleol a helpu achosion da yn rhan o nod y côr a theimlwn hi'n gyfrifoldeb ac yn fraint i geisio gwneud hynny.

Piano Newydd

Fel y soniwyd mewn rhifyn blaenorol mae'r côr wedi derbyn grant sylweddol gan Gronfa Gymdeithasol Cartrefi Gwynedd ac mae'r arian hwnnw wedi cael ei ddefnyddio, ymhlith pethau eraill, i brynu piano newydd ar gyfer yr ymarferion sy'n cael eu cynnal erbyn hyn yng Nghlwb Criced a Bowlio Bethesda. Yn y llun gwelir Fran Davies y gyfeilyddes gydag Arwel Davies yr arweinydd a Wil Parry, y Cadeirydd gyda'r piano newydd.

Ar y gorwel

Ym mis Rhagfyr byddwn yn cymryd rhan mewn gwasanaeth priodas ac unwaith eto'n canu carolau y tu allan i Archfarchand Tesco ym Mangor ac ym Mhlas Ogwen a'r cyfan er budd gwahnaol elusennau. Y llynedd cododd y côr rai cannoedd o bunnau er budd Ambiwlans Awyr Cymru trwy ganu yn Tesco Bangor ac fe obeithir gwneud rhywbeth tebyg eto. Bydd 2013 hefyd yn llawn o ddigwyddiadau ac rydym bob amser yn edrych am aelodau newydd. Bydd croeso i unrhyw un sydd â diddordeb mewn canu i ymuno â ni ac edrychwn ymlaen i groesawu mwy o aelodau ifanc i'n plith er mwyn sicrhau bod y côr yn goroesi i'r degawdau nesaf

Ymateb y gwrandawyr

Un peth sy'n rhoi boddhad mawr i aelodau'r côr yw clywed ymateb cadarnhaol i'n rhaglen gan aelodau o'r gynulleidfa yn ein perfformiadau. Un enghraifft o hynny oedd cyngerdd olaf y tymor yn Eglwys Sant Ioan, Llandudno pan fu Brynmor Jones a Maldwyn Pritchard o'r ail fas yn sgwrsio gyda dwy o America oedd ar ymweliad â Chymru. Roedd Mrs. May Bee a'i merch Honey o Florida wedi dod i'r cyngerdd ar ôl clywed pobl eraill yn dweud yn y gwesty gymaint roedden nhw'n mwynhau cyngherddau St John. Dywedodd May Bee, "Efallai mai dyma fydd uchafbwynt ein hymweliad ag Ewrop a byddwn yn trysori'r hyn a glywsom ac a brofasom heno am flynyddoedd i ddod."

"Melys iawn" oedd sylw Honey wrth nodi iddi fwynhau pob eiliad o gyflwyniad y côr, cyn ychwanegu "a hwyrach y byddwn yn ymled â Chymru eto i glywed mwy o gorau tebyg cyn dychwelyd yn y cwch i America."

Mae bob amser yn braf clywed pobl yn gwerthfawrogi ymdrechion y côr a hyderwn y cawn gefnogaeth pobl Dyffryn Ogwen yn ein cyngherddau yn y dyfodol.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch af ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamsy@parliament.uk

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Wythnos Sgiliau

Bu disgyblion blwyddyn 7 am ddeuddydd o Gwrs Croeso – y diwrnod cyntaf yn aros yn Rhyd Ddu ac yn ddydd caled o gerdded yr Aran a'r ail yn adeiladu lloches ym Mharc Meurig gyda'r pwyslais ar weithio fel tîm. Mae myfyrwyr blwyddyn 12 hefyd yn brysur iawn yn cefnogi'r disgyblion, a bydd y profiad yn cyfrannu at weithgareddau'r Fagloriaeth iddynt hwy.

Gan fod blwyddyn 7 yn Rhyd Ddu manteisiwyd ar y cyfle i roi tridiau o brofiadau gwahanol i weddill yr ysgol, gan ganolbwyntio ar hybu'r sgiliau. Dyma oedd arlwy'r wythnos :

- blwyddyn 7 Rhyd Ddu, gweithgareddau Indonesia a gwrth-fwlio.
- blwyddyn 8 gweithgareddau Indonesia a gwrth-fwlio a diwrnod dinasyddiaeth gan ganolbwyntio ar adnoddau dŵr.
- blwyddyn 9 gweithgareddau gwrth-fwlio a menter. Bydd y gweithgareddau menter yn cyfrannu at y Bac a'r sgiliau allweddol.
- blwyddyn 10 gweithgareddau'r Bac, sgiliau allweddol a sgiliau gwaith.
- blwyddyn 11 gweithgareddau'r Bac, sgiliau allweddol a sgiliau gwaith.

Parc Meurig a Rhyd Ddu



Aeth criw blwyddyn 7 i Barc Meurig a Rhyd Ddu fel gweithgaredd yn ystod yr wythnos sgiliau. Cawsom hwyl yn adeiladu lloches mewn timau gydag aelod o'r chweched dosbarth. I wneud y lloches cafwyd tarpolin bach a mawr, pedair rhaff a thri o begiau. Cafwyd gwobrau am y tîm hapusaf, y lloches a fyddai'n dal dŵr orau, y lloches fwyaf creadigol a'r enw gorau.

Yn dilyn hyn aethom ar y bus i Rhyd Ddu. Cafwyd cwis, cystadleuaeth actio a bwyd blasus wedi ei baratoi gan y chweched dosbarth, sef Emily, Cara, Josh, Alwyn, Callum a Geraint. Roedd pawb wedi mwynhau hogiau'r chweched yn dawnsio'r Macarena! Doedd neb yn rhy awyddus i fynd i gysgu'r noson honno!

Y diwrnod nesaf gwisgodd pawb eu dillad gwrth-ddŵr ac esgidiau cerdded. Pan ddechreuasom gerdded roedd dipyn o gymylau yn gorchuddio copa Yr Aran, ond cliriodd erbyn i ni gyrraedd y copa. Roedd yn anodd ar adegau ond cyrhaeddodd pawb y copa yn ddiogel. Roedd pawb yn teimlo'n falch ac yn hapus wedyn wrth gerdded i lawr yn ôl i'r ysgol yn Rhyd Ddu. Diolch i'r chweched ac i'r staff am ein helpu.

Esme Crowe a Sophie Pipe

Cerdd - Ymweliad Côr yr Ysgol â Disneyland Paris

Ar ôl nifer o glyweliadau, cafodd côr yr ysgol wybod yn ddiweddar eu bod wedi cael eu derbyn gan Disneyland Resort i berfformio yn eu dathliad Gŵyl Dewi yn ystod yr ail benwythnos ym mis Mawrth 2013. Mae hwn yn gyfle arbennig i'r côr a hefyd yn gyfle i weddill Ewrop gael y cyfle i glywed doniau a thalentau'r disgyblion arbennig yma. Byddant yn perfformio nesaf yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ac yna'n prysur ddysgu repertoire newydd ar gyfer y profiad unigryw yma.

Adran Addysg Gorfforol

Llongyfarchiadau i Manon Hughes Blwyddyn 9 ar gael ei dewis i gynrychioli Eryri mewn treialon Pêl-rwyd dan 14 ym Mangor yn ddiweddar. Roedd dros 60 o enethod o ysgolion Gwynedd, Môn a Chonwy'n treialu am leodd yn y garfan. Bydd Manon yn hyfforddi gyda'r garfan am ychydig wythnosau cyn mynd ymlaen i dreialon pellach.




Yn ystod gwyliau'r haf cafodd 8 o ddisgyblion yr ysgol gyfle i gymryd rhan yn ystod seremoni agoriadol y gemau Olympaidd yn Llundain. 'Roedd yr ysgol wedi cael ei dewis oherwydd ein cysylltiadau ag ysgolion yn Indonesia a hefyd ein addewid i gefnogi tîm Indonesia yn ystod y gemau.

'Roedd y disgyblion wedi cael eu dewis ar sail eu gwaith ar Gyngor Chwaraeon yr ysgol neu am godi arian mewn taith gerdded noddedig i'r Adran Addysg Gorfforol. Bu gofyn i'r disgyblion wneud baner oedd yn adlewyrchu Indonesia ar gyfer y prosiect a gwnaethpwyd hyn yn yr ysgol o dan oruchwyliath yr adran Gelf a Mrs Julie Jones. Wedyn roedd yn rhaid chwifio'r faner yn ystod "Guard of Honour" i'r holl athletwyr oedd yn gorymdeithio i mewn i'r stadiwm yn y seremoni agoriadol, gan roi cefnogaeth arbennig i dîm Indonesia.

Fel rhan o'r prosiect trefnwyd i'r disgyblion gael ymweld â Llysgenhadaeth Indonesia yn Grosvenor Square yn Llundain cyn cael taith o amgylch y parc Olympaidd a chymryd rhan yn nhrefniadau'r seremoni.

Llwyddwyd i gael ambell lun gyda sêr y byd chwaraeon (Usain Bolt a Novak Djokovic) a chafwyd nifer o lofnodion ar faner y Ddraig Goch gan gynnwys Tom Daley a Louis Suarez.



Rhes gefn: Mr Mark Jones, Mrs Eleri Mitchelmore, Morgan Owen, Manon Hughes, Alys Haf, Rhiannon Llwyd, Ms Elin Evans

Rhes flaen: Steffan Davies, David Florence, Luke Crowe a Buddug Roberts.

Cofiwch Brynu

Calendr Llais Ogwan

£4.00 yn y siopau lleol

Ysgol Abercaseg

Mynd yn wyllt dros Gymru!



Bu disgyblion a rhai o rieni a neiniau'r ysgol yn brysur ar Hydref 26ain yn plannu planhigion a choed yn yr ardd fel rhan o brosiect amgylcheddol 'Cadw Cymru'n Daclus'. Y gobaith yw y bydd rhywogaethau o anifeiliaid gwarchoddedig yn cael eu denu i'r ardd, a fydd yn troi'n noddfa i fywyd gwyllt.

Diolch i bawb a fu'n helpu, ac yn arbennig i Steven Roberts, tad Llinos a Lois, am ddefnyddio ei gyhyrau i dyllu tyllau dwfn yn y ddaear ar gyfer plannu (tipyn o gamp gyda'r holl gerrig yn y pridd!).

Gweithdai Cerdd

Cafwyd diwrnod difyr iawn yn ddiweddar pan ymwelodd y gyfansoddwraig Falyri Jenkins, sy'n wreiddiol o'r Dyffryn, â'r ysgol i gynnal gweithdai cerdd. Bu yna lawer o symud, clapio, chwarae offerynnau a chanu yn ystod y dydd gyda phawb wedi mwynhau'n arw a dysgu llawer.

Ymweld â Pharc Meurig

Efallai bod rhai ohonoch wedi gweld criw o blant y dosbarth meithrin, yn eu wellingtons lliwgar, yn cerdded drwy'r pentref ar eu ffordd i Barc Meurig. Cafwyd bore difyr gyda phawb yn brysur yn casglu dail hydrefol a chreu cuddfannau ynghanol y coed. Cymaint oedd eu mwynhad fel bod yna hen holi pryd fydd yr ymweliad nesaf!!

Datblygu creadigrwydd yn y clybiau gwarchod

Mae plant y clwb wedi bod yn hynod o brysur yn ddiweddar. Daeth Lisa



Jên atynt i ddysgu cân am liwiau'r enfys, a chafwyd hwyl yn cymysgu paent gan greu lliwiau rhyfeddol gyda'r artist lleol, Eifion Rowlands. Cofiwch bod modd i unrhyw blentyn sy'n 3 oed fynychu'r clwb cinio neu'r clwb prynhawn. Am fwy o fanylion ffoniwch 07818000415. (llun 2)

Brysiwch wella

Rydym i gyd yn falch o glywed bod Miss Siân wedi cael dod adref o'r ysbyty ar ôl treulio cyfnod yno. Mae pawb yn gobeithio ei bod yn teimlo'n well ac yn edrych ymlaen i'w gweld yn dychwelyd atom i'r ysgol yn fuan.

Cogyddes newydd

Llonyfarchiadau i Mrs Marian Davies ar gael ei phenodi yn gogyddes yr ysgol. Gobeithio y bydd yn hapus yn ein plith.

Ysgol Pen-y-bryn

Caerdydd



Ar ddiwedd mis Medi aeth dosbarth Elidir i Gaerdydd ac roedd yn daith llwyddiannus unwaith yn rhagor. Cafodd y plant ymweld â Sain Ffagan, Y Pwll Mawr, Y Senedd a Stadiwm y Mileniwm a chael aros yng Nghanolfan y Mileniwm. Yn wir, roedd yn brofiad gwerthfawr iawn gyda'r plant yn mwynhau'n fawr iawn!

Hywel Williams AS



Ar Fedi 26ain, cawsom ymwelydd arbennig iawn, sef Mr Hywel Williams AS. Daeth i'r ysgol i'n llongyfarch ni ar ol ein arolwg hynod lwyddiannus ac i weld yr ysgol a'r plant yn gweithio'n galed. Mwynhaodd fynd o amgylch y dosbarthiadau a chael gweld yr holl adnoddau sydd gennym a'r cyfleoedd mae'r plant yn eu cael. Diolch yn fawr iawn i chi am ddod atom a chofiwch alw draw eto'n fuan!

Diogelwch Bwyd

Cawsom ddiwrnod difyr dros ben ar Hydref 4ydd, gyda chyflwyniad am hylendid bwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd. Cafodd y plant weld y ddrama 'Dirgelwch Castell y Ddraig' gydag Athro Huw a'r Athro Puw, dau wyddonydd chwit chwat, a Blod, eu ffrind. Yna cafwyd gweithdai yn y dosbarthiadau er mwyn dysgu'r 4 hanfod diogelwch bwyd. Yn fuan iawn datryswyd mai gwenwyn bwyd oedd ar Blod, nid effaith rhyw ysbryd!! Roedd yn ddiwrnod arbennig o dda, gyda'r plant yn mwynhau'n arw.

Llwyddiannau

Hoffem longyfarch Dafydd Williams o ddsbarth Elidir ar gael ei ddewis i chwarae i dîm rygbi Eryri, a Jac Oliver, hefyd o ddsbarth Elidir, am ei lwyddiant diweddar gyda'i nofio. Da iawn chi hogia, rydym yn falch iawn ohonoch!

Staff newydd

Hoffem groesawu Mrs Beverley Taylor-Morgan i'n plith. Mae wedi setlo'n syth a'r plant yn gwerthfawrogi ei chymorth a'i chefnogaeth. Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'ch hun gyda ni yma ym Mhen-y-bryn!

Ysgol Bro Lleu

Braf oedd cael croesawu Grwp Gorau Glas Ysgol Bro Lleu i'n hysgol. Dyma Grwp Effeithiolrwydd eu hysgol ac roeddynt eisiau rhannu

syniadau a chynghor gyda'n grwp ni, sef Plant Pesda. Bu'n fore buddiol iawn, gyda'r ddau grwp yn elwa – Cymuned Dysgu Proffesiynol lwyddiannus iawn!!

Disgo Calan Gaeaf

Cafwyd noson lwyddiannus dros ben ar Hydref 25ain, gyda disgo Calan Gaeaf. Gwelwyd gwisgoedd erchyll a mygydau dychrynlyd – digon i ddychryn unrhyw un! Diolch yn fawr iawn i Gyfeillion yr ysgol am eu holl waith caled.

Ysgol Bodfeurig

Darllenwyr Disglair

Pob blwyddyn, yn ystod gwyliau'r Haf, bydd llyfrgelloedd Gwynedd yn cynnal her darllen ar gyfer plant ysgolion cynradd. I gyflawni'r her mae gofyn iddynt fynd i'r llyfrgell oddeutu chwech gwaith yn ystod gwyliau'r Haf. Eleni enillodd 17 o ddisgyblion yr ysgol fedal aur - da iawn chi am gyflawni'r her.

Ymweliad â Chastell Penrhyn



Fel rhan o'n gwaith y tymor yma mae plant yr Adran Iau wedi bod yn edrych ar waith yr artist William Morris. I ddsygu mwy am yr artist a'i waith aethom ar ymweliad i Gastell Penrhyn. Cawsom gyfle i greu gwaith tebyg i William Morris yn ogystal â chael taith o amgylch y castell i weld ei waith ar y waliau. Rydym nawr yn edrych ymlaen i greu gwaith tebyg yn yr ysgol!

Caerdydd

Roedd cyffro mawr ymysg disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yr ysgol yn ddiweddar pan aethon nhw, a'u ffrindiau o Ysgol Tregarth, ar daith yr holl ffordd i Gaerdydd. Roeddem yn treulio tri diwrnod yn ymweld â llawer o lefydd diddorol gan gynnwys y Pwll Mawr, Stadiwm y Mileniwm, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Sain Ffagan a'r Senedd. Cafodd pawb amser gwerth chweil a nifer fawr o brofiadau bythgofiadwy!



Dyma ni yn ystafell y wasg yn Stadiwm y Mileniwm sydd wedi ei henwi er cof am Ray Gravell

Ysgol Llanllechid

Diolch a Ffarwel

Diolch yn fawr i Mrs Shirley Hartleb am ei holl waith da yn y gegin yn ystod y tymhorau diwethaf a diolch arbennig am ei chymorth parod ar ddiwrnod ein Ffair Hydref. Dymunwn yn dda i Mrs Hartleb i'r dyfodol.

Croeso nôl

Croeso cynnes yn nôl i Mrs Mona Macdonald i'r gegin. Mae'n dda iawn eich gweld yn ôl yn eich gwaith ac yn edrych mor dda. Yn yr un modd, croeso nôl i Ms Rhian Haf.

Gwellhad buan

Anfonwn, fel ysgol, ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Leon Williams, Blwyddyn 2, sydd wedi bod yn Ysbyty Alder Hey yn Lerpwl ers rhai wythnosau bellach. Mae pawb yn meddwl amdano ac yn edrych ymlaen i'w weld yn ôl yn y dosbarth a diolch i'r rhai ohonoch sydd wedi cyfrannu at apêl Leon Williams.

Nain a Taid

Llongyfarchiadau i Mr A Mrs Gwilym Williams ar ddod yn nain a taid unwaith yn rhagor. Ganed merch fach i Gavin a Kim.

Llongyfarchiadau

Fe wnaeth Beca Nia argraff fawr ar y llwyfan cenedlaethol nôl yn Eisteddfod Eryri 2012 gyda'i pherfformiad gwefreiddiol o Strempan yn y gân actol. Bellach, mae llais Beca i'w glywed ar gartwn S4C 'Meic y Marchog' gan mai hi sydd yn lleisio y cymeriad Efa. Gallwch fwynhau y rhaglen bob bore ar Cyw am 8:00a.m.

Diolchgarwch yng Nghapel Carmel

Cafodd plant dosbarthiadau Blwyddyn 2 gyda Mrs Parry Owen a Mrs Marian Jones groeso cynnes iawn ar eu hymweliad â Chapel Carmel yn Rachub. Roedd Mrs Helen Williams yno yn dangos sut oedd y capel wedi ei addurno ar gyfer y gwasanaeth Diolchgarwch ac roedd y cyfan yn edrych yn hyfryd. Cafodd y plant grwydro o amgylch y capel, cyn cael mynd i'r Ysgol Sul i gael diod a bisgedi! Diolch yn fawr Mrs Williams am y croeso!

Taith i Lanberis

Cafodd dosbarth Blwyddyn 4, sef dosbarth Mr Stephen Jones, ddiwrnod anturus iawn yn Lanberis yn ddiweddar. Cafwyd cyfle i ymweld â'r Amgueddfa Lechi, ysbyty'r chwarel, tai'r gweithwyr, olwyn ddŵr a'r gweithdy hollti a naddu. Mae'r cyfan yn cyd-fynd â thema'r dosbarth ar Streic Chwarel y Penrhyn.

Diwrnod y 60au BI 5



Hwyl a sbri ar ddiwrnod y chwedegau

Mae blwyddyn 5, sef dosbarth Mr Huw Edward Jones, yn astudio cyfnod y 1960au ar hyn o bryd. Fel rhan o'u hastudiaeth cafodd y dosbarth ei droi'n adeilad o'r chwedegau gyda'r plant wedi gwisgo yn ôl ffasiwn y cyfnod. Roedd pob un ohonynt yn werth eu gweld a diolch i chi rieni am fynd i'r fath drafferth i ddilladu eich plant. Yn ogystal, daethpwyd d ag arteffactau o'r cyfnod i'w dangos e.e. recordiau Elvis, bagiau llaw, pob math o deganau a choginiwyd bwydydd oedd yn boblogiad yn y cyfnod hwn. Diwrnod a wnaiff aros yn y côf am amser maith!

Parhad dros y dudalen

Ysgol Llanllechid - parhad

Diolchgarwch

Cafwyd cyfarfod Diolchgarwch gwerth chweil yn yr ysgol cyn hanner tymor. Roedd neuadd yr ysgol yn orlawn – pawb yn mwynhau gwyllo pob dosbarth o'r ieuengaf i'r hynaf yn eu tro yn rhoi cyflwyniadau gwreiddiol a diddorol ar wahanol themau yn gysylltiedig â 'diolch'. Roedd y cyfan yn fyrlymus, y canu'n hwyliog a'r gynulleidfa'n teimlo eu bod wedi cael gwledd. Diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi.

Taith Dinas Dinlle Bl 6

Astudio arteffactau o'r Ail Ryfel Byd wnaeth Bl6 gyda Mrs Hanna Huws ym Maes Awyr Caernarfon gan ymweld â'r amgueddfa awyrennau hynafol yno. Bu'r disgyblion hefyd yn ffodus o gael cyflwyniad gan Mr Ieuan Thomas am ei atgofion o'r Ail Ryfel Byd, a chan ei fod yn gyn-athro, roedd hefyd yn arbennig o effeithiol wrth esbonio'r gwyddoniaeth o'r ffordd y mae awyren yn aros yn yr awyr. Roedd wrth ei fodd canfod un o deulu Bullock yn ein plith gan ei fod yn perthyn Aron Fôn. Bonws y trip oedd cael mynd i weld criw Ambiwylans Awyr yn paratoi yr hofrenydd. Llauer o ddiolch i Sally o'r amgueddfa am drefnu hyn i ni.

Gwenyn

Fel rhan o thema Blwyddyn 2 sef Ffrindiau Rwdlan, rydym wedi bod yn dysgu am y gwenyn, a pha mor bwysig ydynt i'r byd. Mae Mrs Sharon Jones a'i mab Iwan yn cadw gwenyn a bu'r ddau yn ddigon caredig i ddod draw i'r ysgol i ddangos yr holl offer pwrpasol sydd ganddynt i gasglu'r mel. Cawsom weld y cychod a'r crwybr a nifer o luniau diddorol, - yn ogystal a chael cyfle i wisgo gwisg arbennig y gwenynwr. P'nawn diddorol iawn! Diolch Mrs Sharon Jones ac Iwanam roi addysg penigamp i'n plant!

Bardd Plant Cymru

Cafodd disgyblion blwyddyn 5 fore difyr iawn yng nghwmni Eurig Salisbury, sef Bardd Plant Cymru. Roedd yr awen yn llifo yn y dosbarth ac fe aethpwyd ati i lunio pennill ar gyfer ein gwasanaeth Diolchgarwch:

Ffrwythau a llysiau yw'r presantau/Rhanwn ni nhw gyda'n ffrindiau/Rhieni, teulu, cartref, dillad/Diolch am blaned sy'n llawn o gariad.

Karate

Mae'r ysgol yn hynod falch o gampau Danny a Jac Jones ym maes Karate. Yn ddiweddar bu'r ddau yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth yn Warrington ac fe ddaeth Danny yn llwyddiannus – ef oedd y pencampwr. Llongyfarchiadau mawr iddo!

Pesda Roc
mewn cydweithrediad â Chylch Meithrin Cefnfaes
yn cyflwyno

SDWNSH 'DOLIG PESDA ROC

gydag

Ogof Siôn Corn

Jac y Jwc ac eraill

Stori a Chân gyda Lisa Jên ac Angharad Llwyd

Crefftau, Peintio Wynebau a llawer mwy

2.00 o'r gloch

8 Rhagfyr 2012

Neuadd Ogwen, Bethesda

Hwyl yr ŵyl i'r teulu i gyd

Plas Ffrancon



Sboncen ym Mhlas Ffrancon

Mae disgyblion blwyddyn 5 wedi mwynhau cyfres o wersi yng nghwmni Steff ym Mhlas Ffrancon. Daeth y sesiynau I ben gyda hyfforddiant sboncen ac mae llauer o chwaraewyr talentog ymysg y criw. Diolch i Steff am yr holl hyfforddiant.

Arbed Ynni

Daeth Ms Ffion Jones i'r ysgol i siarad gyda'r holl ddisgyblion ynglŷn ag arbed ynni. Cyflwynodd gartwn Sbarci a Fflic a oedd yn cynnwys neges bwysig iawn ynglŷn a sut y gallwn helpu i arbed ynni yn yr ysgol. Gwaith y ditectifs ynni sef Criw Sbarci a Fflic yw mynd o amgylch yn llechwraidd i sicrhau fod pawb yn diffodd goleuadau!

Chwaraeon

Bu tim pel rwyd yr ysgol yn cystadlu ym Maes Glas Bangor mewn cystadleuaeth rhwng Ysgolion Arfon. Enillwyd tair gem a chollwyd tair a chafwyd un gem gyfartal. Roedd y cystadlu'n frwdfrydig iawn a diolch i'r tîm - Ella, Maisy, Beca, Mia, Erin, Thalia, Iestyn a Cyle, am chwarae mor dda!

Côr Meibion Dinas Bangor

Y mae James Griffiths, Arweinydd a Sylfaenydd y Côr, wedi datgan y bydd yn ymddeol ddiwedd mis Ionawr ar ôl 25 mlynedd efo'r Côr.

Ffurfiwyd y Côr yn Ionawr 1988 gyda 12 o aelodau ac aeth y Côr ymlaen dros y blynyddoedd i gyrraedd 51 aelod ar un adeg. Felly bydd y Côr yn dathlu chwarter canrif ym mis Ionawr ac mae trefniadau eisoes yn cael eu paratoi ar gyfer sut i ddathlu'r digwyddiad pwysig yma.

Yn ystod misoedd yr haf cafwyd sawl cyngerdd ardderchog yn enwedig yn Eglwys Sant Ioan, Llandudno a Betws y Coed. Cafwyd hefyd gyngerdd yng nghwmni Corau Meibion Caerdybi a Mansfield yn Eglwys Crist Llanfairfechan.

Ar ddydd Llun 26 Tachwedd bydd y Côr yn canu yn agoriad swyddogol archfarnad newydd ASDA ym Mangor. Gan mai côr y ddinas yw Côr Meibion Dinas Bangor, addas iawn yw derbyn y gwahoddiad yma. Ar yr achlysur hwn bydd y Dirprwy Arweinydd Gwilym Lewis yn arwain oherwydd bydd James Griffiths yn arholi yn Singapore yn ystod Tachwedd a Rhagfyr. Y cyfeilydd fydd Lowri Roberts Williams.

Yna o dan arweiniad aelod arall o'r Côr, sef Barry Wynne, a Lowri yn cyfeilio, gobeithir ymweld â chartrefi'r henoed yn lleol i ganu i'r trigolion.

Yn ystod darlledu'r rhaglen Lleisiau'r Ail Ryfel Byd ar S4C, da oedd gweld dau aelod yn rhannu eu profiadau sef Emrys Hughes a fu'n Bevin Boy ac yn gweithio yn y pyllau glo, a Howel Owen o Gaerdybi oedd yn sôn am ei atgofion pan oedd yn ŵr ifanc yng Nghaerdybi.

Emrys Hughes a James Griffiths yw'r unig ddau aelod gwreiddiol o'r Côr sydd yn dal yn aelodau ac efo ymddeoliad yr Arweinydd presennol, Emrys fydd yr unig un o'r 12 gwreiddiol fydd yn dal yn y Côr.